------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Fideogynhadledd drwy Zoom** | **P Gareth Williams** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 1 Tachwedd 2021 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 13.30 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDCC@senedd.cymru |

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00-13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

13.30

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru - Trydydd Adroddiad Blynyddol

13.30 - 14.30 (Tudalennau 1 - 55)

Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Rhian Davies Rees, Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru

**LJC(6)-11-21 - Briff**

**LJC(6)-11-21 - Papur 1** - Trydydd Adroddiad Blynyddol

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

14.30 - 14.35

### Made Negative Resolution Instruments

**3.1 SL(6)065 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 56 - 57)

**LJC(6)-11-21 - Papur 2** - Adroddiad drafft

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

## 4 Papurau i'w nodi

14.35 - 14.45

**4.1 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Cyfarfod Rhynglywodraethol**

(Tudalennau 58 - 61)

**LJC(6)-11-21 - Papur 3** - Llythyr gan y Prif Weinidog, 28 Hydref 2021

**LJC(6)-11-21 - Papur 4** - Datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 28 Hydref 2021

**LJC(6)-11-21 - Papur 5** - Llythyr gan y Prif Weinidog, 15 Hydref 2021

**4.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Grŵp Rhyngweinidogol i drafod Etholiadau a Chofrestru**

(Tudalen 62)

**LJC(6)-11-21 - Papur 6** - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 15 Hydref 2021

**4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio Rhif 2) 2021**

(Tudalennau 63 - 64)

**LJC(6)-11-21 - Papur 7** - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Hydref 2021

**4.4 Gohebiaeth gan Bwyllgor y Llywydd: Y Bil Etholiadau**

(Tudalennau 65 - 66)

**LJC(6)-11-21 - Papur 8** - Llythyr gan Bwyllgor y Llywydd i'r Gweinidog Gwladol dros Godi'r Gwastad a Chydraddoldeb, 18 Hydref 2021

**4.5 Gohebiaeth gan y Bwrdd Taliadau: Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol**

(Tudalennau 67 - 69)

**LJC(6)-11-21 - Papur 9** - Llythyr gan y Bwrdd Taliadau i'r Llywydd, 19 Hydref 2021

**4.6 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 20 Medi 2021**

(Tudalennau 70 - 80)

**LJC(6)-11-21 - Papur 10** – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Hydref 2021

**LJC(6)-11-21 - Papur 11** – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Hydref 2021

**4.7 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Bil yr Amgylchedd**

(Tudalen 81)

**LJC(6)-11-21 - Papur 12** – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Gweinidog Materion Gwledig, y Gogledd a'r Trefnydd, 25 Hydref 2021

**4.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: SL(6)067 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

(Tudalennau 82 - 83)

**LJC(6)-11-21** – **Papur 13** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 26 Hydref 2021

**4.9 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Gwahoddiad i roi tystiolaeth**

(Tudalennau 84 - 85)

**LJC(6)-11-21 - Papur 14** – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Hydref 2021

**LJC(6)-11-21 - Papur 15** – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Hydref 2021

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

14.45

## 6 Sesiwn dystiolaeth gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru - trafod y dystiolaeth

14.45 - 15.00

## 7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru

15.00 - 15.10 (Tudalennau 86 - 89)

**LJC(6)-11-21 - Papur 16** - Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru

## 8 Nodyn briffio ar gytundebau rhyngwladol

15.10 - 15.20 (Tudalennau 90 - 97)

**LJC(6)-11-21 - Papur 17** - Nodyn briffio

## 9 Adroddiad Monitro

15.20 - 15.30 (Tudalennau 98 - 118)

**LJC(6)-11-21 - Papur 18** - Adroddiad Monitro drafft

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil yr Amgylchedd

15.20 -15.30 (Tudalennau 119 - 124)

**LJC(6)-11-21- Papur 19** - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil yr Amgylchedd

**LJC(6)-11-21- Papur 20** - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Hydref 2021 [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru
# Trydydd Adroddiad Blynyddol 2020-2021

30 Ebrill 2021

Tribiwnlysoedd Cymru
Welsh Tribunals
Llywydd / President

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 3

2. Diweddariadau ar Adroddiadau Blynyddol Blaenorol 4

3. Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Phrosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd yng Nghymru 8

4. Effaith y coronafeirws 11

5. Y blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 15


OGL © Hawlfraint y Goron 2021
WG43022 ISBN digidol 978-1-80195-689-5

# 1. Cyflwyniad

Dechreuais lunio fy Ail Adroddiad Blynyddol (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 ond a ysgrifennwyd yn bennaf ym mis Mai) drwy esbonio bod lledaeniad y coronafeirws yn trawsnewid y swyddogaeth gyfiawnder yn y DU. Fodd bynnag, nid oeddwn yn rhagweld ym mis Mai 2020 y byddai'r hyn rydym bellach yn ei alw'n "pandemig" yn dal i gael cymaint o ddylanwad ar y broses o sicrhau cyfiawnder yn y DU flwyddyn yn ddiweddarach. Ond felly y mae, ac ymddengys yn amlwg y bydd y pandemig yn parhau i gael effaith sylweddol ar y swyddogaeth gyfiawnder dros y misoedd i ddod. Felly, mae'n anochel y bydd rhan fawr o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y ffordd mae Tribiwnlysoedd Cymru wedi ymdopi â'r tarfu a ddeilliodd yn anochel o fygythiad difrifol iawn y coronafeirws i iechyd y cyhoedd, a'r ffordd y maent yn parhau i addasu eu harferion a'u gweithdrefnau i ddiwallu anghenion holl ddefnyddwyr y Tribiwnlysoedd, eu haelodau a'r staff cymorth.

Fodd bynnag, yn gryno, mae aelodau'r tribiwnlysoedd a staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru wedi dangos cadernid a hyblygrwydd gwych drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Maent yn haeddu canmoliaeth fawr am eu hymrwymiad, eu parodrwydd i addasu i ffyrdd newydd o weithio, a'u natur benderfynol i sicrhau bod gwaith Tribiwnlysoedd Cymru wedi mynd rhagddo mor ddidrafferth â phosibl.

Roedd fy Adroddiad Blynyddol cyntaf yn cynnwys cryn dipyn o ddeunydd esboniadol am Ddeddf Cymru 2017, swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r prosesau a ddefnyddir i recriwtio a phenodi aelodau o'r Tribiwnlysoedd. Gobeithio y gellir maddau i mi am dybio bod y rhai a fydd yn darllen yr Adroddiad hwn bellach yn gwbl gyfarwydd â'r rhannau perthnasol o'r Ddeddf, swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r prosesau a ddefnyddir i recriwtio a phenodi aelodau o'r Tribiwnlysoedd. Ni fyddaf yn ailadrodd yr hyn a ysgrifennais yn fy adroddiad cyntaf.

Gallai hwn fod wedi bod yr adroddiad blynyddol olaf imi ei lunio. Mae fy llythyr penodi fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn nodi y daw fy nghyfnod yn y swydd i ben ar 13 Awst 2021. Roedd hynny'n anghyson braidd gan mai'r oedran ymddeol statudol i farnwyr yng Nghymru a Lloegr yw 70, a chyrhaeddais y garreg filltir honno ar 31 Mawrth 2021. Fodd bynnag, wrth arfer y pwerau a roddwyd arno gan adran 26 o Ddeddf Pensiynau Barnwrol ac Oedran Ymddeol 1993, estynnodd yr Arglwydd Brif Ustus fy mhenodiad i 31 Mawrth 2022. Cymerodd yr Arglwydd Brif Ustus y cam hwnnw ar ôl ymgynghori gyntaf â Phrif Weinidog Cymru a'r Arglwydd Ganghellor. Roeddwn yn falch o dderbyn y cynnig i estyn fy nghyfnod, ac rwy'n ddiolchgar i'r Arglwydd Brif Ustus, Prif Weinidog Cymru a'r Arglwydd Ganghellor am eu cefnogaeth drwy gydol fy nghyfnod yn y swydd. Un peth y mae'r estyniad yn ei olygu yw y bydd angen i mi lunio adroddiad blynyddol arall y flwyddyn nesaf!

Rwy'n siŵr y bydd darllenwyr yr adroddiad hwn yn gyfarwydd â'r tribiwnlysoedd a gaiff eu galw ar y cyd yn "Dribiwnlysoedd Cymru". Fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rwyf wedi eu nodi fel y cyfeirir atynt yn Neddf Cymru, ynghyd â'r acronymau a ddefnyddir yn aml i adnabod pob tribiwnlys.

Mae adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 yn diffinio'r term 'Tribiwnlys Cymru' i olygu:

(a) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTA Cymru");

(b) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIM Cymru");

(c) pwyllgor asesu rhent a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (gan gynnwys tribiwnlys prisio lesddaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl) ("TEP Cymru");

(d) Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAA Cymru");

(e) tribiwnlys a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (cofrestru arolygwyr yng Nghymru: apeliadau gwrandawiadau tribiwnlysoedd o dan adran 27);

(f) Panel Dyfarnu Cymru ("PDC");

(g) Tribiwnlys y Gymraeg ("TyG").

Gweinyddir Tribiwnlysoedd Cymru gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n rhan o'r gwasanaeth sifil sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru ond sy'n ceisio bod yn annibynnol arni gymaint ag sy'n ymarferol bosibl, ac ymddangos felly.

Bydd ffurf yr adroddiad hwn yn debyg i adroddiad y llynedd. Byddaf yn rhoi gwybodaeth ffeithiol (diweddariad) am nifer yr achosion, recriwtio a phenodi, penodi aelodau o Dribiwnlysoedd Cymru i wasanaethau ar Dribiwnlysoedd Lloegr, neu i'r gwrthwyneb, Cyfarwyddydau Ymarfer, fy ngwaith ymgysylltu, trefniadau gwaith a chyllideb Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'r defnydd o'r Gymraeg yn y Tribiwnlysoedd. Wedyn, byddaf yn ymdrin â'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a phrosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru. Yn olaf, byddaf yn asesu effaith y pandemig ar waith Tribiwnlysoedd Cymru cyn nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer 2021/22.

# 2. Diweddariadau ar Adroddiadau Blynyddol blaenorol

Mae'r Tabl isod yn nodi nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan Dribiwnlysoedd Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau fesul tribiwnlys ynghyd â chanran y cynnydd/gostyngiad**

| Tribiwnlys | Blwyddyn Ariannol 2018-2019 | Blwyddyn Ariannol 2019-2020 | Blwyddyn Ariannol 2020-2021 | % y cynnydd/ gostyngiad | Ceisiadau a broseswyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| TTA Cymru | 29 | 22 | 13 | -41 | 0 |
| TAIM Cymru | 2046 | *1943 | 1790 | -8 | 7 |
| TEP | 176 | 112 | 106 | -5 | 0 |
| TAAA Cymru | 139 | 172 | 116 | -34 | 1 |
| PDC | 2 | 2 | 4 | +100 | 0 |
| TyG | 3 | 16 | 13 | -35 | 12 |

*Yn hanesyddol, byddai data ar TAIM Cymru ar gyfer adroddiadau blynyddol yn cael eu hallgludo o nifer o ffynonellau (â llaw ac yn electronig). Yn 2019-20, cymerwyd y data ar nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a gafwyd o system rheoli cofnodion cwsmeriaid TAIM Cymru, gan ddileu'r risg o unrhyw wall dynol. O ganlyniad i'r newid hwn mewn dulliau adrodd, mae'n ymddangos fel pe bai nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau at TAIM Cymru wedi lleihau, ond pe bai'r un fethodoleg wedi cael ei mabwysiadu mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n debyg y byddai nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau yn debyg i'r rhai dros y blynyddoedd diwethaf.

Ceir rhagor o wybodaeth am natur y gwaith a wnaed ac aelodaeth y tribiwnlysoedd yn eu hadroddiadau blynyddol unigol. Caiff pob adroddiad o'r fath ei gyhoeddi ar wefan pob tribiwnlys.

Ni fu unrhyw ymarferion i benodi aelodau o un tribiwnlys i wasanaethu ar dribiwnlys arall, h.y. ni chafodd unrhyw aelod o Dribiwnlys yng Nghymru ei awdurdodi i eistedd ar Dribiwnlys gwahanol yng Nghymru ac ni chafodd unrhyw aelodau o Dribiwnlysoedd Cymru eu hawdurdodi i eistedd ar Dribiwnlysoedd Lloegr, nac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, gwnaed nifer o benodiadau newydd i Dribiwnlysoedd Cymru. Penodwyd tri pherson i TTA, sef dau ddirprwy gadeirydd ac un aelod lleyg. Penodwyd pum aelod lleyg i TAAA Cymru hefyd. Gwnaed pob un o'r penodiadau hyn yn dilyn cystadlaethau a drefnwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Lansiwyd cystadlaethau gan y Comisiwn hefyd er mwyn recriwtio aelodau cyfreithiol o TEP Cymru ac aelodau cyfreithiol, meddygol a lleyg o TAIM Cymru. Ni chwblhawyd yr ymarferion recriwtio hyn erbyn 30 Ebrill 2021. Nododd Llywyddion y ddau dribiwnlys fod niferoedd sylweddol o ymgeiswyr wedi enwebu eu hunain i'w penodi.

Mae'n werth nodi bod yr holl benodiadau cyfreithiol i Dribiwnlysoedd Cymru yn agored i ymarferwyr cyfreithiol sy'n ymarfer yng Nghymru yn ogystal â Lloegr. Yn ei hanfod, mae hynny am fod pob ymarferydd cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i ymarfer yn y ddwy wlad.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd pedwar Cyfarwyddyd Ymarfer eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru yn unol ag adran 61 o Ddeddf Cymru 2017. Cafodd pob un o'r pedwar Cyfarwyddyd Ymarfer eu cyhoeddi ar y cyd gan Lywydd y Tribiwnlys dan sylw a minnau.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywydd TAIM Cymru a minnau Gyfarwyddyd Ymarfer a oedd yn estyn cyfnod gweithredol y Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gennym ym mis Ebrill 2020 am gyfnod o chwe mis, h.y. tan fis Ebrill 2021. Prif ddiben y Cyfarwyddyd Ymarfer a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020 oedd ategu'r newidiadau a wnaed i'r rheolau er mwyn darparu ar gyfer newidiadau posibl i arferion gweithio yn sgil y pandemig. Ym mis Hydref 2020, gwnaethom ei estyn am gyfnod o chwe mis yn wyneb y cynnydd difrifol iawn yn nifer yr achosion o'r coronafeirws ar y pryd. Daeth y Cyfarwyddyd Ymarfer i ben ym mis Ebrill 2021; gwnaethom benderfynu peidio ag estyn ei ddarpariaethau ymhellach am y rhesymau a nodir isod yn Adran 4.

Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywydd TAAA Cymru a minnau Gyfarwyddyd Ymarfer y nodwyd y dylai barhau mewn grym am chwe mis. Ni chyhoeddwyd y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig; fe'i cyhoeddwyd i hwyluso gwaith y Tribiwnlys i reoli'r dystiolaeth a gyflwynwyd ger ei fron. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom adolygu'r Cyfarwyddyd Ymarfer yng ngoleuni sylwadau a gafwyd gan awdurdodau addysg lleol. Ar 11 Rhagfyr 2020, gwnaethom gyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer diwygiedig yn nodi y byddai'n parhau mewn grym am gyfnod o chwe mis ac y byddai'n cael ei adolygu tua diwedd y cyfnod.

Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywydd TEP Cymru a minnau Gyfarwyddyd Ymarfer am gyfnod o chwe mis. Diben y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn oedd ateb yr heriau a wynebwyd gan y Tribiwnlys yn sgil y pandemig. Cafodd ei estyn am gyfnod o chwe mis arall yn dilyn adolygiad, a chaiff ei adolygu eto ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

Drwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd cyrff rwy'n aelod ohonynt (pob un ohonynt wedi'u cynnal o bell). Yn rhinwedd fy swydd fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, rwy'n aelod o Fwrdd Gweithredol Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd, y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Phwyllgor Cyngor Barnwyr Cymru, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Brif Ustus.

Barnwyr yn unig sy'n eistedd ar Fwrdd Gweithredol Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o bob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Mae'n fforwm pwysig iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau barnwrol mewn perthynas â'r prosesau i'w mabwysiadu ym mhob un o dribiwnlysoedd y DU. Bu'n fforwm amhrisiadwy wrth drafod yr arferion gweithio y dylai Tribiwnlysoedd eu mabwysiadu er mwyn ystyried y cyfyngiadau a osodwyd i fynd i'r afael ag effaith y pandemig.

Mae'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol hefyd yn gorff ar gyfer y DU. Mae ganddo aelodaeth eang, yn cynnwys barnwyr, cyfreithwyr academaidd, academyddion mewn meysydd sy'n gysylltiedig â chyfiawnder a gweinyddwyr. Mae pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru, un o gynrychiolwyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a minnau yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn rheolaidd. Mae'r Cyngor yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau manwl am bynciau o ddiddordeb sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r tribiwnlysoedd, yn ogystal â rhoi gwybodaeth fanwl am faterion cyfreithiol o sylwedd sy'n codi yn y tribiwnlysoedd.

Corff cynghori yw Pwyllgor Cyngor Barnwyr Cymru, sy'n hysbysu'r Arglwydd Brif Ustus am faterion sy'n berthnasol i Gymru. Mae ei aelodaeth yn cynnwys barnwyr ar bob lefel o ynadon lleyg i'r Arglwydd Lloyd-Jones yn y Goruchaf Lys. Materion sy'n codi yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, sy'n cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a drafodir gan y Pwyllgor yn bennaf, wrth reswm, ond rwyf innau hefyd yn cyflwyno adroddiad iddo ym mhob cyfarfod ar bob mater pwysig sy'n berthnasol i Dribiwnlysoedd Cymru, sydd weithiau yn ysgogi cryn drafodaeth.

Mae pob un o'r cyrff hyn yn cyfarfod yn chwarterol ac mae aelodaeth pob un ohonynt yn sicrhau bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru mewn sefyllfa dda i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bob datblygiad pwysig yn y tribiwnlysoedd sy'n bodoli ym mhob un o bedair gwlad y DU.

Rwy'n ymgynghori â Barnwyr Llywyddol Cymru yn ôl yr angen. Er enghraifft, yn gynharach eleni, ymgynghorais â nhw ar gynllunio ar gyfer olyniaeth mewn perthynas â swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a ph'un a ddylwn dderbyn y cynnig i estyn fy nghyfnod yn y swydd ai peidio.

Drwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi cadeirio cyfarfodydd chwarterol arweinwyr barnwrol Tribiwnlysoedd Cymru. Y bwriad bob amser oedd i'r cyfarfodydd hyn roi'r cyfle i drafod materion o bryder i arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd unigol a/neu faterion o bryder i'r holl dribiwnlysoedd. Rwy'n gwbl sicr eu bod wedi llwyddo i gyflawni'r nod hwnnw. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i gael cyswllt uniongyrchol rhwng yr arweinwyr barnwrol fel grŵp ac uwch-aelodau o Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Pan wyf wedi cael gwahoddiad, rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd a diwrnodau hyfforddi a drefnwyd gan dribiwnlysoedd unigol.

Ar 13 Gorffennaf 2020, ymddangosais fel tyst gerbron Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd. Gofynnwyd sawl cwestiwn manwl imi a oedd yn gwneud i rywun feddwl yn ofalus. Wrth gwrs, mae fy atebion i'r gwahanol gwestiynau wedi'u cyhoeddi. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am y cyfle i ymddangos ger ei fron a chredaf yn gryf y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wneud yr un peth ar gyfnodau priodol er mwyn esbonio'r Adroddiad Blynyddol ac ymhelaethu arno, yn ogystal ag ateb cwestiynau eraill sy'n berthnasol i waith y tribiwnlysoedd.

Ychydig fisoedd ar ôl i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor, cafodd fy Ail Adroddiad Blynyddol ei drafod mewn sesiwn lawn o'r Senedd. Roedd y digwyddiad cyntaf hwn, heb amheuaeth, yn garreg filltir. Yn naturiol ddigon, nid oedd cyfraniadau'r aelodau wedi'u cyfyngu'n gul i gynnwys fy adroddiad. Roedd y drafodaeth yn amrywio'n fawr ynghylch materion yn ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru.

Cynhaliwyd fy nghyfarfod blynyddol â Phrif Weinidog Cymru ar 6 Hydref 2020. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y Cwnsler Cyffredinol a'i ysgrifennydd preifat hefyd yn bresennol gyda'r Prif Weinidog. Daeth Dirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Thribiwnlysoedd Cymru ac arweinydd Uned Tribiwnlysoedd Cymru gyda mi.

Yn naturiol ddigon, effaith y pandemig ar waith y tribiwnlysoedd a drafodwyd yn bennaf. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd drafod y posibilrwydd o benodi aelodau cyfreithiol cyflogedig llawn amser i TAIM Cymru, y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, prosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru, rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a chynllunio ar gyfer olyniaeth mewn perthynas â'r swydd honno.

Mae'n bleser gennyf nodi bod Prif Weinidog Cymru, yn dilyn ein cyfarfod, wedi cymeradwyo, mewn egwyddor, y cynnig i benodi dau aelod cyfreithiol cyflogedig i TAIM Cymru, yn ychwanegol at Lywydd y tribiwnlys hwnnw (sydd hefyd yn aelod cyflogedig), a bod yr Arglwydd Ganghellor, fel yr awdurdod penodi, hefyd wedi cymeradwyo'r cynnig hwnnw. Fy mwriad i a Llywydd TAIM Cymru yw y bydd y broses recriwtio i benodi'r aelodau cyflogedig hynny, lle y bo'n bosibl, yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 2021/2022.

Yn olaf, dylwn nodi fy mod wedi cael trafodaethau mynych â phennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru, trafodaethau mwy achlysurol â gweision sifil eraill a, lle bo angen, cyfarfodydd â'r ddau gyfreithiwr yn Llywodraeth Cymru sydd â'r rôl benodol o roi cyngor cyfreithiol i mi, Uned Tribiwnlysoedd Cymru a, lle y bo angen, y tribiwnlysoedd unigol.

Ers dechrau'r flwyddyn ariannol, mae staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru wedi bod yn gweithio gartref yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cafodd niferoedd bach o'r staff eu dynodi'n weithwyr allweddol er mwyn ymdrin â phost y swyddfeydd yn ôl yr angen. Er bod modd gwneud llawer iawn o waith y Tribiwnlysoedd yn electronig, caiff copïau caled o rai dogfennau eu hanfon i swyddfeydd o hyd. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r unigolion sydd wedi gweithio mor hyblyg er mwyn cynnal holl wasanaethau'r tribiwnlysoedd er gwaethaf yr amgylchiadau anodd. Ymatebodd Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn gyflym i ddod o hyd i ddulliau amgen o gynnal gwrandawiadau yn lle gwrandawiadau wyneb yn wyneb pan roddwyd y cyfyngiadau ar waith ym mis Mawrth y llynedd, fel y disgrifiais yn fy ail Adroddiad Blynyddol.

Roedd disgwyl i staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru a oedd yn gweithio mewn swyddfeydd yn Llandrindod gael eu hadleoli i swyddfeydd wedi'u hadnewyddu yn adeilad presennol Cyngor Sir Powys erbyn diwedd 2020. Oherwydd y risgiau a wynebwyd yn sgil y cyfyngiadau, mae hyn wedi'i oedi tan fis Gorffennaf 2021.

Defnyddir swyddfeydd presennol Uned Tribiwnlysoedd Cymru fel pencadlys TAAA Cymru, TTA Cymru a PDC ac mae ystafell o faint digonol yno y gellir ei defnyddio i gynnal gwrandawiadau. Ni fydd ystafell benodol ar gyfer cynnal gwrandawiadau yn y swyddfeydd newydd ond ni fyddai'n briodol cynnal gwrandawiadau mewn adeilad y mae Cyngor Sir Powys yn berchen arno ac yn ei ddefnyddio'n rhannol beth bynnag, o ystyried y gall fod yn rhan o achosion unigol weithiau.

Bydd ystafelloedd cyfarfod yn y swyddfeydd newydd y gall aelodau'r tribiwnlysoedd eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi ac mae lle priodol ar gyfer staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Ar ôl cwblhau'r broses symud, gwrandewir achosion a gyflwynir gerbron TAAA Cymru, TTA Cymru a PDC lle mae angen cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau sy'n diwallu anghenion y partïon ac aelodau'r tribiwnlysoedd.

Caiff y gyllideb ar gyfer Uned Tribiwnlysoedd Cymru ei phennu gan Lywodraeth Cymru.

Ym mlwyddyn ariannol 2020/2021, y dyraniad i Uned Tribiwnlysoedd Cymru oedd £4,148,000.00. Mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau rhedeg tribiwnlysoedd a gweinyddol.

Cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn oedd £3,565,246.00.

Mae'r tanwariant yn y flwyddyn ariannol hon yn cynrychioli tanwariant na welwyd ei debyg yn ystod fy nghyfnod yn y swydd. Hyd yma, bu gorwariant sylweddol ym mhob blwyddyn ariannol. Gellir priodoli'r gostyngiad mewn gwariant yn 2020/21 bron yn gyfan gwbl i'r newid o wrandawiadau wyneb yn wyneb i rai o bell. Nid oedd unrhyw gostau yn gysylltiedig â llogi ystafelloedd addas ar gyfer gwrandawiadau; nid oedd fawr ddim costau teithio i'w talu i aelodau a staff tribiwnlysoedd.

Drwy reolaeth ariannol llym yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol llwyddwyd i adennill cyllid sylweddol i'r cronfeydd Canolog ar ddechrau 2021.

Mae pob Tribiwnlys yn parhau i gynnig gwasanaeth Cymraeg llawn i'w ddefnyddwyr yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd gan yr hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Er nad yw PDC yn ddarostyngedig i'r Safonau, mae'n gweithredu yn unol â'r tribiwnlysoedd eraill ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ym mhob un o'm hadroddiadau blaenorol, rhagfynegais ei bod yn debygol y byddai PDC yn dod yn ddarostyngedig i'r Safonau, ond nid yw hynny wedi digwydd eto. Serch hynny, disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol agos.

Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaeth Cymraeg yn parhau i fod yn isel. Mae Tabl 1 isod yn dangos i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn 20 o achosion ar draws holl Dribiwnlysoedd Cymru yn ystod 2020/21.

# 3. Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a phrosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, tynnais sylw at dri argymhelliad gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â Thribiwnlysoedd Cymru, swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r cymorth gweinyddol a roddir i'r Tribiwnlysoedd a'r Llywydd gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'n debyg y bydd y darllenydd yn ymwybodol fy mod i yn un o'r Comisiynwyr. Er hwylustod, nodais yr argymhellion hynny eto ynghyd â'm sylwadau diweddaraf.

Mae **Argymhelliad 22** yn darparu y "Dylai'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n dyfarnu ar anghydfodau ym meysydd cyfraith sifil a gweinyddol fod o dan un system unedig yng Nghymru".

Er nad yw'r adroddiad yn dweud hynny'n benodol, mae'n ymhlyg yn yr argymhelliad hwn mai dim ond os caiff y swyddogaeth gyfiawnder ei datganoli'n sylweddol i Gymru y gellir cyflawni hyn. Felly, byddai angen deddfwriaeth o sylwedd gan Senedd y DU er mwyn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw beth a fyddai'n awgrymu bod Senedd y DU yn ystyried deddfwriaeth o'r fath ar hyn o bryd.

Mae **Argymhelliad 25** yn darparu y "Dylai pob corff cyhoeddus, ombwdsmon a thribiwnlys arall a sefydlwyd o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu led-farnwrol ac nad yw'n cael ei oruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ei ddwyn o dan oruchwyliaeth y Llywydd."

Mae **Argymhelliad 27** yn darparu y "Dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru fod yn annibynnol yn strwythurol ac y dylid defnyddio Tribiwnlysoedd Cymru i ddatrys anghydfodau ynglŷn â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol."

Mae'n bosibl y byddai'r ddau ddiwygiad hyn yn golygu bod angen rhywfaint o ddeddfwriaeth gan Senedd y DU neu fod angen diwygio deddfwriaeth a ddeddfwyd eisoes gan Senedd y DU o leiaf. Nod unrhyw ddeddfwriaeth newydd o'r fath a diwygiadau o'r fath a fyddai'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith fyddai hwyluso gwaith sefydliadau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig. Wedi dweud hynny, nid wyf mewn unrhyw sefyllfa i farnu a fyddai gwrthwynebiad i'r ddeddfwriaeth angenrheidiol o fewn Senedd y DU neu gan bobl eraill ac ni fyddai'n briodol imi ddyfalu ynghylch materion o'r fath. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw arwydd bod Senedd y DU yn ystyried deddfwriaeth yn ymwneud â'r materion hyn yn y dyfodol agos.

Fodd bynnag, mae argymhelliad 25 a rhan gyntaf argymhelliad 27 o fewn cwmpas prosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru i raddau helaeth. Comisiynwyd y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi bod yn datblygu ers bron i flwyddyn erbyn hyn.

Mae'n amlwg o'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ym mis Rhagfyr 2020 bod y Comisiwn wedi cynnal asesiad manwl o nifer o gyrff allanol yng Nghymru er mwyn dod i gasgliad ynghylch p'un a ddylid eu categoreiddio'n dribiwnlysoedd ai peidio, ac, os felly, p'un a ddylid eu hychwanegu at y rhestr o Dribiwnlysoedd Cymru yn Neddf Cymru 2017 a/neu eu gwneud yn destun goruchwyliaeth gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r Comisiwn yn argymell dros dro y dylid cyfuno Tribiwnlysoedd presennol Cymru yn Dribiwnlys Haen Gyntaf ac y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru fod yn rhan o'r Haen Gyntaf. At hynny, mae'r Comisiwn yn argymell dros dro y dylid uno awdurdodaeth paneli apêl ar gyfer gwaharddiadau o ysgolion yn TAAA Cymru.

Mae papur ymgynghori'r Comisiwn hefyd wedi asesu'r angen i Uned Tribiwnlysoedd Cymru ddod yn strwythurol annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae'r Comisiwn yn argymell dros dro y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru ddod yn adran anweinidogol. Os caiff argymhelliad o'r fath ei gynnal yn adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith, a'i roi ar waith wedi hynny, ni all fod unrhyw amheuaeth y byddai Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn dod yn strwythurol annibynnol ar Lywodraeth Cymru fel y rhagwelwyd gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Yn fy marn i, mae rhesymeg Comisiwn y Gyfraith dros yr argymhelliad hwn yn gymhellol, ac nid wyf wedi celu fy marn y byddai datblygiad o'r fath yn fuddiol iawn i weithrediad ac annibyniaeth Tribiwnlysoedd Cymru.

Yn adroddiad y llynedd, nodais y gallai agweddau ar argymhellion 25 a 27 gynyddu gwaith rhai o Dribiwnlysoedd Cymru yn sylweddol iawn. Byddai hynny'n i'w briodoli'n arbennig i'r rhan honno o argymhelliad 27 sy'n nodi y dylai'r tribiwnlysoedd ddod yn fforwm ar gyfer datrys anghydfodau ynghylch deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol. Rwy'n dal i fod o'r farn honno i raddau helaeth. Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol ym meysydd iechyd, addysg, tai ac amaethyddiaeth. Os bydd Tribiwnlysoedd Cymru yn penderfynu ar yr holl anghydfodau sy'n deillio o ddeddfwriaeth yn y meysydd hyn o'r gyfraith yn y dyfodol, mae'n anochel y bydd cynnydd mawr yn llwyth gwaith y tribiwnlysoedd a goblygiadau amlwg ar y gyllideb a strwythur staffio Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

Yn adroddiad y llynedd, mynegais hefyd y farn y byddai rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cael ei thrawsnewid pe bai argymhellion 25 a 27 yn cael eu rhoi ar waith. Nid oes angen i mi ymhelaethu ymhellach ar b'un a fyddai argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn cael yr effaith honno, oherwydd yn ei bapur ymgynghori, mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud nifer o argymhellion dros dro a fyddai, heb amheuaeth, yn cynyddu llwyth gwaith y Llywydd yn

sylweddol pe baent yn cael eu rhoi ar waith. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymell dros dro y dylai'r Llywydd ddod yn awdurdod penodi ar gyfer holl aelodau Tribiwnlysoedd Cymru sydd o fewn cwmpas y Ddeddf ar hyn o bryd ac aelodau cyrff eraill a all ddod yn dribiwnlysoedd o dan y Ddeddf, y dylai ddod yn awdurdod disgyblu ar gyfer yr aelodau hynny, y dylai fod yn gyfrifol am ddyrannu categorïau gwaith i Siambrau gwahanol y strwythur Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf newydd a grëwyd yng Nghymru, ac y dylai gadeirio Uned Tribiwnlysoedd Cymru annibynnol newydd a Phwyllgor Rheolau ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru.

Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd yn argymell dros dro y dylid creu dwy rôl farnwrol benodol ar gyfer Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn gyntaf, mae'n awgrymu y dylai fod hawl gan y Llywydd i eistedd ar unrhyw un o Dribiwnlysoedd Cymru. Er fy mod i (a'r Arglwydd Brif Ustus) bob amser wedi bod o'r farn y dylai fod hawl gan y Llywydd i eistedd ar y Tribiwnlysoedd, nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol benodol i'r perwyl hwnnw. Yn ail, mae Comisiwn y Gyfraith yn awgrymu, pe bai Tribiwnlys Apêl ar wahân i Gymru yn cael ei greu, lle y gwrandewid ar yr holl apeliadau gan Dribiwnlysoedd Cymru, y dylai'r Llywydd fod yn aelod o'r Tribiwnlys Apêl hwnnw.

Rwy'n cefnogi'r holl argymhellion dros dro a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith mewn perthynas â swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Mae'r sail statudol dros swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i'w gweld yn adran 60 o Ddeddf Cymru 2017. Dylid nodi bod yr adran yn darparu'n benodol nad yw'r Llywydd yn awdurdod datganoledig Cymreig at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ddi-os, mae lle i drafod pa gorff deddfu (Senedd Cymru neu Senedd y DU) a ddylai gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud â swydd y Llywydd y gall fod ei hangen i gyflawni argymhellion terfynol Comisiwn y Gyfraith. Mae rhywfaint o frys yn perthyn i'r mater hwn, oherwydd, yn fy marn i, mae cwmpas swydd y Llywydd yn elfen hollbwysig i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer fy olynydd, a'i recriwtio.

Ar hyn o bryd mae dau lwybr i benodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Mae'r llwybr cyntaf yn rhagweld y byddai'r Llywydd yn cael ei benodi gan yr Arglwydd Brif Ustus o blith uwch-aelodau presennol ac ymddeoledig barnwriaeth Cymru a Lloegr. Mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi'i rymuso i benodi'r Llywydd o blith y gronfa hon o ddarpar lywyddion yn dilyn "mynegiadau o ddiddordeb" ac ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru a'r Arglwydd Ganghellor .

Os na ddaw neb i'r amlwg drwy'r broses hon neu os bydd yr Arglwydd Brif Ustus yn penderfynu peidio â defnyddio'r broses hon, byddai'n penodi'r Llywydd yn dilyn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ac ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru a'r Arglwydd Ganghellor (Llwybr 2).

Mae Paragraff 3 o Atodlen 5 i Ddeddf Cymru 2017 yn darparu bod unigolyn yn gymwys i gael ei ddethol os yw wedi cymhwyso'n fargyfreithiwr ers saith mlynedd o leiaf. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn anarferol; defnyddir yr un meini prawf gofynnol ar gyfer penodiadau i'r Uchel Lys a llawer o swyddi barnwrol eraill. Fodd bynnag, dyma'r meini prawf gofynnol sylfaenol.

Yn ymarferol, byddwn yn disgwyl mai nod unrhyw ymgyrch recriwtio fyddai dod o hyd i'r ymgeiswyr gorau posibl. Mae'n rhaid bod dadl gref dros ddisgrifio'r swydd er mwyn denu ymgeiswyr a fyddai'n meddu ar y priodweddau sydd eu hangen i gael eu penodi i'r Uchel Lys ond sydd wedi penderfynu, am ba reswm bynnag, nad ydynt am gystadlu am swydd farnwrol gyflogedig llawn amser.

Hyd yn oed ar ôl ystyried y llwyth gwaith cynyddol pe bai argymhellion dros dro Comisiwn y Gyfraith yn dwyn ffrwyth, mae'n annhebygol iawn y bydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn benodiad llawn amser cyflogedig am sawl blwyddyn i ddod. Mae'n debygol mai swydd a delir drwy ffioedd fydd hon am sawl blwyddyn eto. Yn unol â hynny, gall swydd y Llywydd fod yn ddeniadol i'r rhai sydd wedi'u penodi'n Ddirprwy Farnwyr yr Uchel Lys neu'r rhai sy'n dyheu am gael eu penodi i'r swydd ohono.

Yn amlwg, os defnyddir Llwybr 2 i benodi fy olynydd, bydd angen pennu'r meini prawf ychwanegol priodol ar gyfer dethol yn ofalus os bydd cronfa eang ac amrywiol o ymgeiswyr sydd â'r gallu gofynnol.

Er mwyn rhoi rhywfaint o arweiniad o ran gofynion y rôl ar hyn o bryd, fel Barnwr Uchel Lys sydd wedi ymddeol, mae dyletswydd arnaf o dan Ddeddf 2017 i neilltuo'r hyn sy'n cyfateb i 20 diwrnod gwaith y flwyddyn i'r Llywyddiaeth o leiaf ac, yn ymarferol hyd yma, bu angen imi neilltuo'r hyn sy'n cyfateb i 25 i 30 diwrnod y flwyddyn i'r rôl (er bod y gwaith i'w gyflawni wedi'i rannu mewn ffordd sy'n golygu fy mod yn treulio rhan o sawl diwrnod yn ei wneud y rhan fwyaf o wythnosau). Os caiff holl argymhellion dros dro Comisiwn y Gyfraith eu mabwysiadu, byddai rôl y Llywydd yn cael ei hestyn yn sylweddol iawn. Yn fy marn i, mae'n debyg y byddai llwyth gwaith y Llywydd yn dyblu.

# 4. Effaith y coronafeirws

Mae Tribiwnlysoedd Cymru wedi dygymod â chyfnod o darfu ar eu harferion gweithio arferol ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. I bob pwrpas, roedd y cyfyngiadau symud a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 23 Mawrth 2020 yn golygu na ellid cynnal gwrandawiadau traddodiadol lle byddai aelodau'r tribiwnlys a'r partïon yn dod ynghyd mewn un ystafell. Rhwng 23 Mawrth 2020 a 30 Ebrill 2021, ni chynhaliwyd yr un gwrandawiad o'r fath; yn lle hynny, mae gwaith y tribiwnlysoedd wedi'i wneud drwy gyfeirio at dystiolaeth ysgrifenedig a chyflwyniadau ysgrifenedig yn unig neu drwy gynnal gwrandawiadau "o bell".

Lleihaodd nifer yr achosion a ystyriwyd gan TTA Cymru yn ystod 2020/21 yn sylweddol, fel y gwelir yn glir yn Nhabl 1 uchod. Ni ellir rhoi esboniad pendant am y lleihad hwn yn y llwyth gwaith, ond mae'n rhesymol awgrymu bod y pandemig wedi bod yn factor mawr yn hyn o beth. Bu modd cynnal gwrandawiadau rhagarweiniol a gwrandawiadau cymeradwyo dros y ffôn ac, yn fwy diweddar, drwy fideo-gynadledda. Fodd bynnag, bu'n anodd trefnu gwrandawiadau o sylwedd lle bu angen ymweliadau safle hefyd. O blith y 13 o geisiadau a gafwyd gan TTA Cymru yn 2020/21, roedd pump yn ymwneud ag olyniaeth tenantiaeth yn dilyn marwolaeth, un yn ymwneud ag olyniaeth tenantiaeth yn dilyn ymddeoliad, pump yn ymwneud â Hysbysiadau Ymadael a dau yn ymwneud ag achosion draenio tir. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddi TTA Cymru drwy fideo-gynadledda.

Bu tarfu hefyd ar waith TEP Cymru yn ystod wythnosau cyntaf y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020. Mae gan ymweliadau safle ran i'w chwarae mewn rhai o'r penderfyniadau a wneir gan y Tribiwnlys hwn, ac mewn llawer o'r achosion lle roedd ymweliadau safle yn angenrheidiol, roedd hi'n anodd iawn, os nad yn amhosibl, cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, ymatebodd TEP Cymru yn gyflym iawn drwy gynnal ei wrandawiadau o bell. Cynhaliodd ei wrandawiad cyntaf drwy fideo-gynadledda ym mis Mai 2020, ac mae wedi datblygu ei allu i gynnal pob math o achosion yn y ffordd honno drwy gydol y flwyddyn. Cyhoeddodd y Llywydd a minnau Gyfarwyddyd Ymarfer ar y cyd ym mis Mehefin 2020, a fyddai'n hwyluso'r defnydd o wrandawiadau o bell; roedd hyn yn angenrheidiol am fod y tribiwnlys hwn yn gweithredu o dan dair set o reolau gweithdrefnol ac roedd angen nodi'n

glir bod pob set o reolau gweithdrefnol yn caniatáu iddo ddefnyddio gwrandawiadau o bell. Mae TEP Cymru wedi addasu ei weithdrefn yn llwyddiannus iawn i hwyluso gwrandawiadau o bell – yn bennaf drwy fabwysiadu dull rheoli achosion trwyadl gyda'r bwriad o leihau'r materion y mae angen penderfynu arnynt mor gynnar â phosibl yn yr achosion.

Mae llwyth gwaith TEP Cymru wedi parhau'n gyson i bob pwrpas rhwng 2019/20 a 2020/21. Dylid llongyfarch pob un o'i aelodau, ei staff cymorth a'i ddefnyddwyr am ymdopi â llwyth gwaith o'r fath ar adeg mor heriol. Hefyd, mae'n werth nodi bod TEP Cymru wedi llwyddo i drefnu dwy gynhadledd hyfforddi ar-lein ar gyfer ei aelodau (ym mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021).

Nifer bach o achosion y mae PDC yn ymdrin â nhw yn draddodiadol. Fel mae'n digwydd, gwnaeth ymdrin ag un achos yn fwy yn ystod 2020/21 na'r flwyddyn flaenorol. Llwyddwyd i leihau'r tarfu ar y tribiwnlys hwn yn sylweddol am fod rheolau llywodraethu'r tribiwnlys yn caniatáu i rai penderfyniadau gael eu gwneud ar ôl ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a chyflwyniadau ysgrifenedig, ac rwyf ar ddeall gan Lywydd PDC mai ar sail deunydd ysgrifenedig yr ymdriniwyd â'r pedwar achos y penderfynodd PDC arnynt. Nid yw hynny'n golygu nad oedd PDC mewn sefyllfa i gynnal gwrandawiadau o bell. Cafodd yr aelodau hyfforddiant priodol yn fuan ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2020 a byddai gwrandawiadau o bell wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn pe bai'r partïon wedi gofyn am hynny.

Lleihaodd llwyth achosion TyG i raddau yn ystod 2020/21.

Er ei bod yn anodd cynnig rheswm dros hynny, mae'n annhebygol ei fod oherwydd effeithiau'r pandemig.

Dros y blynyddoedd ers iddo ddod i fodolaeth, mae niferoedd achosion y tribiwnlys hwn wedi amrywio'n sylweddol ac mae'n debygol y byddant yn parhau i wneud hynny.

Mae'r rheolau sy'n llywodraethu TyG yn caniatáu gwrandawiadau o bell ar sail deunydd ysgrifenedig. O blith y saith apêl a ystyriwyd yn 2020/21, cafodd tair eu gwrthod, caniatawyd dwy, ac ni chafodd dwy eu datrys y flwyddyn honno. Penderfynwyd ar bob un o'r apeliadau drwy gyfeirio at gyflwyniadau ysgrifenedig.

Mae TAAA Cymru yn ymdrin ag achosion sy'n canolbwyntio'n bennaf ar anghenion addysgol plant sy'n agored i niwed. Pan ddaeth gwrandawiadau wyneb yn wyneb traddodiadol i ben, dechreuodd ymchwilio i'r ffyrdd gorau o ymdrin ag achosion o bell. Cafodd ei aelodau hyfforddiant priodol a gwnaethant gynnal gwrandawiadau o bell yn frwdfrydig. Mae'r Llywydd wedi nodi'n gyson fod gwrandawiadau drwy fideo-gynadledda wedi bod yn llwyddiannus iawn. Un thema gyson a nodwyd yw bod yn llawer gwell gan rieni plant ag anghenion addysgol arbennig wrandawiadau o bell am eu bod, yn gyffredinol, yn gallu cymryd rhan o'u cartrefi eu hunain ac, o ganlyniad, yn gallu ymlacio a chyfrannu'n well. Dylid llongyfarch pob un o aelodau'r tribiwnlys a'r staff sy'n eu cefnogi am eu hyblygrwydd a'u hymrwymiad i ddatblygu dulliau gweithio amgen.

Mae Tabl 1 yn dangos y bu lleihad sylweddol yn nifer yr achosion yr ymdriniwyd â nhw yn 2020/21 o gymharu â 2019/20, er bod nifer yr achosion yr ymdriniwyd â nhw yn 2020/21 yn agosach o lawer at y niferoedd yr ymdriniwyd â nhw yn 2017/18 a 2018/19 (er eu bod yn llai na'r naill flwyddyn a'r llall). Nid oes gennyf y sail dystiolaeth i benderfynu a yw'r pandemig wedi achosi neu gyfrannu at y lleihad yn niferoedd yr achosion yn 2020/21, ond yn fy marn i, gellir cyfiawnhau rhywfaint o ymchwil i'r mater hwn o ystyried yr angen clir i sicrhau na chaiff addysg plant sy'n agored i niwed ei rhoi yn y fantol. Byddaf yn gofyn i Lywydd TAAA Cymru a Phennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru drefnu'r gwaith angenrheidiol.

TAIM Cymru sydd â'r nifer mwyaf o achosion o bell ffordd o blith Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion a gyflwynwyd gerbron y tribiwnlys lle mae angen cynnal gwrandawiad wedi cael eu cynnal mewn ysbyty yn draddodiadol. Ers i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2020, ni fu modd cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb mewn ysbytai, ac mae hyn wedi golygu bod y Tribiwnlys wedi gorfod addasu i gynnal gwrandawiadau o bell. Yn ystod y flwyddyn, cafodd pob achos lle roedd angen gwrandawiad ei gynnal dros y ffôn. Yn ystod dyddiau cynnar lledaeniad y coronafeirws ac, yn arbennig, ychydig cyn i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno, roedd pryder gwirioneddol na fyddai TAIM Cymru yn gallu ymdopi â llwyth achosion o bron 2000 y flwyddyn. O ganlyniad, roedd angen gwneud penderfyniadau brys ynghylch a oedd angen diwygio'r rheolau gweithdrefnol a oedd yn llywodraethu TAIM Cymru.

Er bod TAIM Cymru yn un o Dribiwnlysoedd Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017, cafodd ei greu sawl blwyddyn yn ôl gan ddeddfwriaeth a ddeddfwyd gan Senedd y DU. Dros y blynyddoedd, mae'r rheolau gweithdrefnol sy'n gymwys yn Lloegr sy'n llywodraethu'r corff sy'n cyfateb i TAIM Cymru wedi ymwahanu o'r rheolau sy'n llywodraethu TAIM Cymru.

Yn gryno, mae'r rheolau yn Lloegr wedi cynnig llawer mwy o hyblygrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau. Felly, er enghraifft, am rai blynyddoedd yn Lloegr, bu modd sefydlu tribiwnlys gydag un neu ddau aelod (yn hytrach na thri) er mwyn gwneud penderfyniadau mewn mathau penodol o achosion, ond ni fu modd gwneud hynny yng Nghymru.

At hynny, mae'r tribiwnlys yn Lloegr wedi gallu penderfynu ar achosion drwy gyfeirio at ddeunydd ysgrifenedig yn unig os bodlonir rhai meini prawf, ond nid felly y bu yng Nghymru. Pan ddaeth yn hysbys bod Senedd y DU yn bwriadu deddfu Deddf y Coronafeirws 2020, gwnaed ymdrechion taer i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau sy'n benodol i TAIM Cymru er mwyn sicrhau y gallai weithio mor hyblyg â'i gorff cyfatebol yn Lloegr.

Yn ddi-os o ganlyniad i lawer iawn o waith caled ar ran nifer o bobl ac, at hynny, drwy waith cydweithredol rhwng gweision sifil yng Nghymru a Lloegr, cafodd darpariaethau addas sy'n benodol i TAIM Cymru eu drafftio a'u hymgorffori yn y Ddeddf.

O ganlyniad, gallai TAIM Cymru weithio yr un mor hyblyg â'i gorff cyfatebol yn Lloegr cyhyd ag yr ystyriwyd bod hyn yn briodol gan ddeddfwyr.

Roeddwn yn llwyr o blaid y newidiadau i'r rheolau yng Nghymru (fel yr oedd Llywydd TAIM Cymru), a gyda chymeradwyaeth Prif Weinidog Cymru, llwyddais i a Llywydd TAIM Cymru i gyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer ar y cyd yn ymwneud â gwaith TAIM Cymru, er mwyn ategu'r newidiadau i'r rheolau yng Nghymru.

Fodd bynnag, wrth i amser fynd rhagddo, bu'r Cyfarwyddyd Ymarfer a'r newidiadau i'r rheolau yn destun beirniadaeth gan rai o'r cyfreithwyr sy'n ymarfer ym maes iechyd meddwl. At hynny, bu'r newidiadau i'r rheolau yn destun beirniadaeth gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd yn ei adroddiad "Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig". Roedd pryderon bod y diogelwch a roddwyd i gleifion gan benderfyniadau a wnaed gan dri aelod (yn hytrach na nifer llai) ac yn dilyn gwrandawiadau llafar yn crebachu.

Deallaf y rhesymau dros y pryderon hyn. Serch hynny, yn ystod dyddiau cynnar y pandemig a phan oedd y rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol ar eu llymaf wrth i nifer yr achosion o'r coronafeirws gyrraedd ei anterth, roedd risg wirioneddol y byddai cynnull tri aelod ar gyfer pob gwrandawiad (er ei fod yn cael ei gynnal o bell) yn amhosibl oherwydd diffyg niferoedd digonol o aelodau a oedd ar gael, yn barod ac yn gallu gweithio drwy gydol y pandemig.

Holl bwrpas y newidiadau i'r rheolau oedd atal sefyllfa lle na fyddai rhai achosion yn cael eu clywed o gwbl, fel y gallai fod wedi bod yn wir pe bai aelodau o TAIM Cymru eu hunain wedi mynd yn sâl gyda'r coronafeirws neu anhwylderau eraill. Mae nifer sylweddol o aelodau mwyaf profiadol TAIM Cymru dros 60 oed, a chyn iddynt gael brechiad, roeddent yn wynebu risg o salwch difrifol pe baent yn dal y coronafeirws.

Fel mae'n digwydd, ni fu'n rhaid lleihau nifer yr aelodau sy'n gwrando achos o'r nifer llawn o dri. At hynny, ni fu'n rhaid penderfynu ar achos drwy gyfeirio at ddeunydd ysgrifenedig yn unig. Mae'r Tribiwnlys wedi cwblhau rhaglen lawn o wrandawiadau ym mhob categori o achosion gyda phanel llawn a heb oedi nac ôl-groniadau gormodol o achosion. Mae'r ffaith bod hyn wedi bod yn bosibl yn glod mawr i aelodau TAIM Cymru a'r staff sydd wedi darparu'r cymorth diflino hwn.

Pan ddaeth y Cyfarwyddyd Ymarfer, a gafodd ei estyn am gyfnod o chwe mis o fis Hydref 2020, i ben, penderfynodd Llywydd TAIM Cymru na fyddai'n cael ei estyn ymhellach, a hynny am fod niferoedd y bobl a oedd yn dioddef o'r coronafeirws yn lleihau ac, fel yr wyf eisoes wedi nodi, oherwydd ymrwymiad aelodau'r Tribiwnlys a'r staff cymorth. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid wyf yn disgwyl y caiff y Cyfarwyddyd Ymarfer ei adfer. Serch hynny, dylid nodi nad yw'r darpariaethau yn Neddf y Coronafeirws 2020 y cyfeirir atynt uchod wedi'u diddymu ac, felly, gellid eu galw i rym pe bai'r angen yn codi.

Fel y mae Tabl 1 yn ei ddangos, mae'r Tribiwnlys wedi cael llawer iawn o achosion yn ystod y flwyddyn (er bod y niferoedd yn llai o gymharu â blynyddoedd blaenorol). Mae TAIM Cymru wedi ceisio deall pam y mae nifer yr achosion a gafwyd yn 2020/21 wedi lleihau tua 8%.

Mae'r lleihad mewn niferoedd i'w briodoli'n bennaf i'r lleihad yn nifer y ceisiadau a wnaed gan gleifion yn y gymuned neu mewn perthynas â nhw.

O ystyried y cyfyngiadau o ran cadw pellter cymdeithasol a oedd ar waith am y rhan helaeth o'r flwyddyn, mae'n debyg bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y nifer llai o "achosion cymunedol" a'r pandemig. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu mai'r ffaith bod gwrandawiadau, drwy reidrwydd, wedi'u cynnal o bell yw'r prif beth sydd wedi achosi neu gyfrannu at y lleihad yn nifer yr achosion.

Nid yw hynny'n golygu nad oedd unrhyw anesmwythyd ynghylch gwrandawiadau o bell. Fel yr wyf wedi esbonio uchod, mae TAIM Cymru wedi cynnal gwrandawiadau dros y ffôn drwy'r flwyddyn.

Bu rhywfaint o bwysau erioed gan rai cleifion a'u cyfreithwyr i gynnal gwrandawiadau drwy fideo-gynadledda. Mae Llywydd TAIM Cymru a'i thîm o ddirprwyon wedi bod yn ystyried y posibilrwydd hwn ers sawl mis, ac rwyf ar ddeall y bydd y gwaith o dreialu gwrandawiadau drwy fideo-gynadledda yn dechrau yn fuan, os na fydd eisoes wedi dechrau erbyn dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Fodd bynnag, ni ddylid tanamcangyfrif anawsterau logistaidd cynnal gwrandawiadau drwy fideo-gynadledda. Nid oes gan bob ysbyty lle caiff cleifion eu cadw yr adnoddau i gynnal gwrandawiadau o'r fath. Ni fyddai pob claf yn croesawu gwrandawiadau drwy fideo-gynadledda. Mae angen sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn gymesur, y caiff cleifion eu trin yn deg o ran y ffordd caiff gwrandawiadau eu cynnal.

Yn ddi-os, pan fydd rhai gwrandawiadau wedi'u cynnal drwy fideo-gynadledda, bydd TAIM Cymru yn cynnal asesiad manwl o'r amgylchiadau lle gellir cynnal mathau gwahanol o wrandawiadau o bell. Byddaf yn cefnogi TAIM Cymru yn llwyr i ddod i'r casgliadau priodol.

Nid wyf yn honni bod yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig wedi'u goresgyn heb darfu ym mhob achos. Rwy'n ddigon parod i dderbyn na fydd rhai achosion wedi mynd rhagddynt mor ddidrafferth ag y byddent pe bai gwrandawiadau wyneb yn wyneb traddodiadol wedi bod ar gael.

Serch hynny, gallaf ddweud yn weddol hyderus fod yr hyblygrwydd y mae'r holl dribiwnlysoedd wedi ei ddangos wrth addasu eu ffyrdd o weithio yn ystod y cyfnod anodd hwn wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod y tribiwnlysoedd wedi gweithredu'n effeithlon ac yn gyflym ac yn unol â'r nod cyffredinol o sicrhau cyfiawnder i bawb dan sylw.

# 5. Y blaenoriaethau ar gyfer 2021/22

Yn gyntaf oll, bydd angen asesu a gwerthuso sut y dylai'r tribiwnlysoedd weithredu o'r adeg pan ddaw'r pandemig i ben. Mae gennyf ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cymru 2017 i ddyfeisio dulliau arloesol o ddatrys anghydfodau a gyflwynir gerbron y tribiwnlysoedd ac, yn ddi-os, mae'r pandemig wedi gorfodi arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd a minnau i ystyried ffyrdd o weithio na allai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr tribiwnlysoedd fod wedi eu dychmygu cyn mis Mawrth 2020.

Mater hollbwysig y bydd angen ei ystyried yn fanwl yw i ba raddau y bydd gwrandawiadau o bell yn parhau pan fydd modd cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb traddodiadol unwaith eto. Nid oes amheuaeth bod gwrandawiadau o bell yn debygol o fod yn llai costus i'w cynnal. Nid oes amheuaeth chwaith bod rhai o ddefnyddwyr y tribiwnlysoedd yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn cymryd rhan o'u cartrefi eu hunain neu amgylchiadau cyfarwydd eraill nag y maent mewn lleoliad mwy ffurfiol.

Fodd bynnag, nod cyffredinol pob tribiwnlys yw sicrhau cyfiawnder ac nid oes amheuaeth, yn fy marn i, bod gwrandawiadau wyneb yn wyneb traddodiadol yn fodel gwell ar gyfer sicrhau cyfiawnder lle mae materion ffeithiol dadleuol a hollbwysig dan sylw y mae angen tystiolaeth lafar gan dystion sydd wedi tyngu llw i'w datrys. Mae'n bosibl hefyd y bydd amgylchiadau sy'n benodol i dribiwnlysoedd unigol lle mae gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn angenrheidiol neu, o leiaf, yn ddymunol iawn.

Dros y misoedd nesaf, bydd yr arweinwyr barnwrol a minnau yn cynnal asesiad manwl o'r rheolau gweithdrefnol cyfredol sy'n llywodraethu pob tribiwnlys a'r hyn y dylid ei wneud i ddatblygu meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid cynnal gwrandawiadau o bell neu wyneb yn wyneb. Bydd ymchwil fanwl sy'n dod i'r amlwg ar y defnydd o wrandawiadau o bell yn ystod y pandemig yn ddefnyddiol iawn yn hyn o beth. Yn union fel yr oeddwn yn cwblhau'r adroddiad hwn, cyhoeddodd y Sefydliad Addysg Gyfreithiol ganlyniadau ei ymchwil i wrandawiadau o bell yn ystod misoedd cynnar y pandemig. Ni allwn wneud cyfiawnder ag adroddiad hir, manwl a llawn gwybodaeth drwy geisio ei grynhoi mewn adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, bydd yr ymchwil hon, ac adroddiadau tebyg eraill, yn gerrig sylfaen ar gyfer gwaith tribiwnlysoedd mewn blynyddoedd i ddod.

Mae gennyf dair blaenoriaeth bwysig arall. Yn gyntaf, ymateb yn briodol i'r argymhellion terfynol ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru sy'n debygol o gael eu cyhoeddi gan Gomisiwn y Gyfraith yn yr hydref, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a statws Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Yn ail, rhoi cymorth, lle bo angen, mewn perthynas â'r broses o bontio o TAAA Cymru i'r "Tribiwnlys Addysg", a fydd yn digwydd yn nes ymlaen eleni yn rhinwedd deddfwriaeth a wnaed yng Nghymru, sef Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Yn drydydd, lle bo angen, helpu i lunio'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau cyfreithiol cyflogedig i TAIM Cymru.

Mae swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedi bod yn fwy heriol nag a ragwelais pan ymgymerais â’r swydd yn ystod hydref 2017. Credaf y byddai hynny wedi bod yn wir hyd yn oed heb y pandemig. Fodd bynnag, mae wedi bod yn fraint bod yn rhan o gamau cynnar prosiect i ddatblygu Tribiwnlysoedd Cymru yn gyrff datrys anghydfodau sy’n wirioneddol addas at y diben yn ystod ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain.



**Syr Wyn Williams**
**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru**

# SL(6)065 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae paragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“**Deddf 1988**”) yn darparu bod gwerth ardrethol hereditament annomestig yn cael ei ystyried yn swm sy’n hafal i’r rhent yr amcangyfrifir y gellid disgwyl yn rhesymol gosod yr hereditament amdano o flwyddyn i flwyddyn, yn ddarostyngedig i ragdybiaethau penodedig.

Yn yr achosion hynny pan nad oes gwybodaeth ar gael am y farchnad rentu gyffredinol ac na ellir defnyddio elw a cholled fel awgrym o werth rhent, penderfynir, yn hytrach, ar werth ardrethol hereditament annomestig drwy ‘ddatgyfalafu’ cyfanswm gwerth cyfalaf amcangyfrifedig yr hereditament. Caiff y cyfraddau datgyfalafu perthnasol eu rhagnodi yn rheoliad 2 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989 ("**Rheoliadau 1989**").

Mae’r Rheoliadau hyn, a fydd mewn grym o 9 Tachwedd 2021, yn diwygio’r cyfraddau datgyfalafu ar gyfer rhestrau ardrethu annomestig a gaiff eu llunio ar neu ar ôl 1 Ebrill 2023.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau pwnc yn diwygio rheoliad 2(1G) o Reoliadau 1989 fel ei fod yn cyfeirio at restr ardrethu annomestig yng Nghymru "compiled on 1 April 2021".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro diben y drafftio hwn o gofio mai effaith adran 54A o Ddeddf 1988 (fel y'i diwygiwyd) yw ei gwneud yn ofynnol i'r rhestrau annomestig y cyfeirir

atynt yn adrannau 41 a 52 o'r Ddeddf honno gael eu llunio yng Nghymru ar 1 Ebrill 2017, ar 1 Ebrill 2023 ac ar 1 Ebrill ym mhob pumed flwyddyn wedyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**19 Hydref 2021**

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

28 Hydref 2021

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod Rhynglywodraethol**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 15 Hydref ynglŷn â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol a chyfarfod ar 18 Hydref rhwng Prif Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig, hoffwn eich hysbysu fy mod heddiw wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol ysgrifenedig yn crynhoi canlyniadau'r cyfarfod.

Mae wedi'i gyhoeddi yn: Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod Rhynglywodraethol (28 Hydref 2021) | LLYW.CYMRU

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Cyfarfod Rhynglywodraethol**

**DYDDIAD** **28 Hydref 2021**

**GAN** **Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog**

Ar 18 Hydref, gan gynrychioli Llywodraeth Cymru, aeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau i gyfarfod rhynglywodraethol rhwng y pedair gwlad o dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog Llywodraeth y DU. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i drafod yr heriau cyffredin sy'n eu hwynebu yn sgil COVID yng nghyd-destun pwysau ehangach y gaeaf, a Chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yn Glasgow.

Cyhoeddwyd datganiad yn dilyn y cyfarfod:
https://www.gov.uk/government/publications/prime-minister-led-engagement-with-the-devolved-administrations

Ar ddechrau'r cyfarfod, siaradodd Prif Weinidog y DU am farwolaeth drasig Syr David Amess. Ailadroddais innau y teimladau a fynegwyd gan y Prif Weinidog ac yn ystod y cyfarfod cafwyd munud o dawelwch.

Yn ystod yr eitem ar yr agenda ar heriau COVID cyffredin, soniais am yr effeithiau economaidd parhaus a'r goblygiadau yn deillio o brinder yn y gadwyn gyflenwi, a soniais am yr effeithiau ar sectorau yng Nghymru, gan gynnwys y diwydiant dur. Tynnais sylw hefyd at brinder llafur yn y sector gofal cymdeithasol, a gofynnais i weithwyr gofal cymdeithasol gael eu rhoi hefyd ar y rhestr o alwedigaethau lle ceir prinder er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio, gan nodi, yn y tymor hir, y bydd angen i'r llywodraethau gydweithio ar recriwtio a chadw staff yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac ym maes gofal cymdeithasol. Galwais am gydweithio parhaus fel pedair gwlad ar frechlynnau a phrofion, a dywedais fod mesurau gwyliadwriaeth ar gyfer teithwyr sy'n dychwelyd yn parhau i fod yn hanfodol i ddiogelu Cymru.

Pwysais ar y Prif Weinidog am sicrwydd y byddai'r archwiliad cyhoeddus i COVID ar gyfer y DU gyfan yn ymchwilio i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru a phrofiadau pobl o Gymru. Fel ymateb, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai gan yr ymchwiliad ddimensiwn gwirioneddol Gymreig a siaradodd am bwysigrwydd yr ymchwiliad i'r DU gyfan. Fel yr wyf wedi dweud yn gwbl glir eisoes, rhaid i'r ymchwiliad ystyried y camau a gymerwyd yng

Nghymru ac ymchwilio'n briodol i gynnig yr atebion y mae hawl gan deuluoedd iddynt ynghylch y ffordd y cafodd penderfyniadau eu gwneud ar eu rhan.

Mewn perthynas â'r eitem ar COP26, yng nghyd-destun hinsawdd sy'n newid, galwais ar Lywodraeth y DU, drwy ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gyhoeddir yn fuan, i ddarparu cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â gwaddol y tomenni glo o'r cyfnod cyn datganoli. Gofynnais iddynt sicrhau bod y tomenni hynny yn ddiogel wrth inni wynebu tywydd gynyddol eithafol o ganlyniad i newid hinsawdd. Mae hwn bellach yn fater tyngedfennol. Mae gan y tomenni glo hanes trasig ac mae'r bygythiad – sy'n cynyddu yn sgil newid hinsawdd – yn un gwirioneddol i bobl a chymunedau ar draws Cymru. Diolch i ymdrechion y cymunedau hyn, crëwyd cyfoeth a daethpwyd â budd economaidd anhygoel i'r DU dros y canrifoedd a aeth heibio – mae hawl ganddynt ddisgwyl cyllid hirdymor gan y DU i fynd i'r afael â'r safleoedd hyn.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

15 Hydref 2021

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol: Cyfarfod Rhynglywodraethol**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'n cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod ar 18 Hydref rhwng Prif Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig. Yn y cyfarfod rhithiol yma byddwn yn trafod cysylltiadau rhynglywodraethol, yr heriau cyffredin mewn perthynas â COVID yng nghyd-destun pwysau ehangach y gaeaf, a Chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd yn Glasgow. Byddaf yn darparu diweddariad wedi'r cyfarfod.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref 2021/11/04 IGR

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
enedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

15 Hydref 2021

Annwyl Huw

Ysgrifennais atoch ym mis Medi yn hysbysu'r Pwyllgor am ohirio'r Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru ar 29 Medi, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol. Mae'r cyfarfod bellach wedi'i aildrefnu ar gyfer dydd Iau 4 Tachwedd.

Fe wnaf i ysgrifennu eto yn dilyn y cyfarfod.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca- Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

huw.Irranca-Davies@senedd.wales

15 Hydref 2021

**Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio rhif 2) 2021**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud yr Offeryn Statudol (OS) a enwir uchod o dan bwerau a roddwyd gan Erthyglau 5(3), 30(1), 37(5), 40(3), 41(3), 42(3), 72(3) a 105(6) o Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau i amddiffyn planhigion rhag plâu. Bydd yr OS yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban a'i ddiben fydd diogelu bioddiogelwch a chefnogi'r fasnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol drwy gyflwyno mesurau pellach i amddiffyn nwyddau planhigion sy'n peri risg.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2016/2031 a gyfer:

- Cyflwyno mesurau ledled Prydain Fawr yn erbyn mewnforio planhigion lletyol a nwyddau perthnasol eraill a reoleiddir, mewn perthynas â rhai plâu. Mae'r mesurau hyn yn gymwys i drydydd gwledydd penodol sy'n peri lefel annerbyniol o risg i Brydain Fawr.

- Dadreoleiddio plâu yr aseswyd nad ydynt o unrhyw risg i fioddiogelwch Prydain Fawr, gan nad oes cyfiawnhad technegol mwyach dros barhau i'w rheoleiddio.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol gymhwyso'r OS hwn i Gymru. Deallaf y bydd yr OS yn cael ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 21 Hydref o dan y weithdrefn negyddol.

Pan fo gofyn i ni ystyried a diwygio deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gydag adnoddau prin, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod, os yw hynny'n briodol, yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan. Os gwrthodir y caniatâd hwnnw, bydd angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru. Nid oes digon o amser nac adnoddau i ddrafftio a gosod rheoliadau o'r fath yr un pryd â Llywodraeth y DU a byddai oedi yn peryglu ein bioddiogelwch.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Senedd Cymru
**Pwyllgor y Llywydd**
—
Welsh Parliament
**The Llywydd's Committee**

Eitem 4.4

Kemi Badenoch AS
Y Gweinidog Gwladol dros Godi'r Gwastad a Chydraddoldeb, Llywodraeth y DU
Swyddfa'r Cabinet
70 Whitehall
Llundain
SW1A 2AS

Eich cyfeirnod: MC2021/14148

Dyddiad | Date: 18 Hydref 2021

**Pwnc | Subject: Y Bil Etholiadau**

Annwyl Weinidog Gwladol dros Godi'r Gwastad a Chydraddoldeb,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i lythyr dyddiedig 5 Gorffennaf gan y cyn Weinidog Gwladol dros y Cyfansoddiad a Datganoli (sef y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am y Bil Etholiadau ar y pryd) yn gofyn am sylwadau ar Fil Etholiadau Llywodraeth y DU.[1]

Fel y nodwyd yn y Nodiadau Esboniadol ar y Bil Etholiadau, mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil yn gysylltiedig â materion sydd wedi'u datganoli i'r Senedd. Nid yw'r Senedd eto wedi trafod a ddylid cydsynio i ddarpariaethau o'r fath, ond caiff Senedd y DU wybod am ei phenderfyniad yn y ffordd arferol, ac nid yw'r ohebiaeth hon yn achub y blaen ar y drafodaeth honno.

Serch penderfyniad ehangach y Senedd ar gydsynio i'r Bil, mae Pwyllgor y Llywydd o'r farn y dylid diwygio'r Bil Etholiadau i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd os yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi Datganiadau Strategaeth a Pholisi sy'n berthnasol i'r modd y mae'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei swyddogaethau datganoledig yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb o ran y ffordd yr ymdrinnir â Phwyllgor y Llywydd a'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â Phwyllgor y Llefarydd.

Yn unol â'r darpariaethau yn Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mater i'r Senedd yw trafod *nodau ac amcanion y Comisiwn Etholiadol ar gyfer arfer swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru*[2], drwy waith Pwyllgor y Llywydd wrth drafod y cynlluniau pum mlynedd a gyflwynir iddo gan y Comisiwn Etholiadol. Os nad yw Pwyllgor y Llywydd yn fodlon bod cynllun pum mlynedd yn gyson â'r camau a gymerir gan y Comisiwn i arfer ei swyddogaethau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol mewn perthynas ag etholiadau a

[1] Cafodd y llythyr gwreiddiol ei gyfeirio at Elin Jones AS, Llywydd y Senedd. O gofio bod y Comisiwn Etholiadol yn atebol i Bwyllgor y Llywydd, anfonwyd llythyr y Gweinidog ymlaen at y Pwyllgor i'w ystyried.
[2] Cyfieithiad o baragraff 16B(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPLL@senedd.cymru
0300 200 6368

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLLC@senedd.wales
0300 200 6368

refferenda datganoledig yng Nghymru, rhaid i Bwyllgor y Llywydd addasu'r cynllun fel sy'n briodol at ddibenion sicrhau'r cysondeb hwnnw.

Mae'r Bil Etholiadau fel y'i drafftiwyd yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Lywodraeth y DU gyhoeddi Datganiadau Strategaeth a Pholisi a all fod yn berthnasol i'r modd y mae'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei swyddogaethau datganoledig yng Nghymru.

Ymddengys bod y pŵer hwn yn arwain at risg o wrthdaro â chyfrifoldebau Pwyllgor y Llywydd mewn perthynas â chynlluniau pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol. Felly, byddai'n briodol i adran 4C(2) o'r Bil gael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, cyn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau o'r fath.

Byddai cynnwys darpariaeth y dylid ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd yn sicrhau cydraddoldeb o ran y ffordd yr ymdrinnir â'r Pwyllgor hwn a'r ffordd yr ymdrinnir â Phwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, ac yn adlewyrchu atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol i Bwyllgor y Llywydd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb. Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at:

- Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd;
- Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd;
- Cwnsler Cyffredinol Cymru;
- y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru; a
- Phwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin.

Yn gywir,

David F. Rees.

**David Rees AS**

**Cadeirydd Pwyllgor y Llywydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Copi at:

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol Cymru

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Syr Lindsay Hoyle AS, Llefarydd, Pwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol

At: Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

19 Hydref 2021

Annwyl Lywydd,

Cafodd y Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwriaethol (y Bil) ei gyflwyno yn Senedd y DU ym mis Gorffennaf 2021, ac mae'n gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Ym mis Awst 2021, gosododd y Cwnsler Cyffredinol femorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd ar y sail bod nifer o ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Er bod deddfwriaeth ar gynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol yn fater a gedwir yn ôl gan Senedd y DU, ceir eithriad[1] penodol sy'n galluogi'r Senedd i ddeddfu ynghylch cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd. Fodd bynnag, Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n parhau'n gyfrifol am swyddogaeth gymeradwyo newidiadau i'r cynllun pensiwn datganoledig hwn.[2] Er nad yw'r Bil yn cynnig newid swyddogaeth Trysorlys EM ar hyn o bryd, deallaf fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi trafod y mater hwn, a bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddileu swyddogaeth gymeradwyo Trysorlys EM.

Yn dilyn gohebiaeth rhwng y Cwnsler Cyffredinol a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd (dyfyniad wedi'i atodi), mae swyddogion Trysorlys EM wedi bod mewn cysylltiad ag ysgrifenyddiaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o ganlyniad i'r cynigion i ddiwygio rheolau cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd. O ystyried mai'r Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu rheolau cynllun pensiwn yr Aelodau, cysylltwyd â'i ysgrifenyddiaeth i gadarnhau pwy y dylid ei wahodd i drafod y mater hwn â swyddogion Trysorlys EM.

[1] Paragraff 134 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
[2] Adran 30 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
**Taliadau@senedd.cymru**
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
**Remuneration@senedd.wales**
0300 200 6565

Mae'r Bwrdd o'r farn bod y cwestiwn o sut y dylid arfer y swyddogaeth yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r fframwaith cyfansoddiadol y mae'r Bwrdd yn gweithredu oddi mewn iddo. Felly, nid yw'r Bwrdd yn credu ei bod yn briodol iddo fynegi barn ar unrhyw benderfyniadau polisi deddfwriaethol o ran a ddylid trosglwyddo’r swyddogaeth hon neu ei dileu yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn fodlon mynegi ei farn i Drysorlys EM, drwy ei ysgrifenyddiaeth, ar ymarferoldeb technegol gwelliant arfaethedig ac unrhyw oblygiadau cyfreithiol y byddai’n rhaid eu hystyried wrth lunio cyngor polisi ar y mater. Mae'n fodlon i'r trafodaethau hyn rhwng swyddogion fynd yn eu blaenau heb ragfarnu barn Comisiwn y Senedd na barn y Senedd ar y mater.

Dim ond yr effaith ar gynllun pensiwn Aelodau o’r Senedd y byddai unrhyw drafodaethau o’r fath yn ei chynnwys.

Rhowch wybod i mi os ydych am drafod y mater hwn ymhellach.

Yn gywir,



**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

copi at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Y Gwir Anrhydeddus Simon Clarke AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Llywodraeth y DU

Jill Youds, Cadeirydd Bwrdd Pensiwn Cynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad**

**Dyfyniad o ohebiaeth gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, at y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd, ynghylch y Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwriaethol, 11 Awst 2021**

"I note that the Bill as introduced does not make provision in relation to the pension scheme for members of the Senedd. In the context of that scheme, I note the proposed amendments to the Bill to introduce measures removing the requirement for HM Treasury consent to matters within the Senedd's legislative competence. Legislation governing Senedd members' pensions is taken forward in Wales by the Senedd Commission, and so UK Government officials should liaise with officials from the Commission on the potential effect and drafting of any amendments. It would then also be for the Commission to advise Members on the impact of those amendments. However, it remains the responsibility of a member of the Welsh Government to lay any Legislative Consent Motions that are required, and so on that basis and subject to the relevant provisions being made available to my officials and those in the Commission, I will consider laying a supplementary Legislative Consent Memorandum before the Senedd. I therefore hope that all necessary officials can liaise as amendments are prepared and before they are taken forward."

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref CG/10056/21

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Hydref 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2021 ynghylch fy ymddangosiad yn eich Pwyllgor ar 20 Medi 2021.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o fanylion am y materion y gwnaethoch dynnu sylw atynt.

Mae fy ymatebion i'w gweld yn Atodiad A.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

1. **Gwnaethoch gadarnhau eich bod chi a'ch swyddogion yn gweithio ar strategaeth ar gyfer rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r egwyddorion arweiniol ar gyfer deddfwriaeth a gaiff ei chyflwyno, fel bod gennym ddull gweithredu cyson. A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y strategaeth hon, a chadarnhau pryd mae'n debygol y bydd yn derfynol ac yn cael ei chyhoeddi?**

Ein hegwyddor gyffredinol o hyd, o ran deddfwriaeth, yw y dylem ddeddfu yn y Senedd mewn meysydd datganoledig. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran amser ac adnoddau yn golygu bod angen hefyd inni fod yn agored i ddilyn dull pragmataidd o ddefnyddio deddfwriaeth Senedd y DU i gyflawni ein hamcanion lle bo'r cyfle'n codi. Rydym wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion i lywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â Biliau Seneddol y DU. Mae'r egwyddorion hynny wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

Mae'r penderfyniad terfynol ar argymell cydsyniad i un o Filiau'r DU fel arfer yn golygu ystyried amrywiaeth o ffactorau cyfansoddiadol, polisi, gwleidyddol a ffactorau eraill, a all wrthdaro weithiau. O ganlyniad, er y bydd yr egwyddorion yn sail i benderfyniadau o'r fath, rhaid inni gydnabod y cânt eu cymhwyso yng nghyd-destun trafodaethau cymhleth a chyfnewidiol yn aml ac y bydd angen weithiau ystyried y posibilrwydd o gonsesiynau er mwyn sicrhau ein hamcanion polisi.

2. **A yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau i fynd ar drywydd newidiadau mwy sylfaenol i Gonfensiwn Sewel?**

Mae ein safbwynt ar Gonfensiwn Sewel yn parhau fel y nodir yn *Diwygio ein Hundeb,* a ailgyhoeddwyd yn gynharach eleni. Rydym hefyd yn rhag-weld y bydd y mater yn cael ei ystyried fel rhan o waith y comisiwn cyfansoddiadol sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

3. **A allwch chi ddarparu manylion am y meini prawf rydych chi'n eu defnyddio yn y Senedd hon i benderfynu a fyddai'n dderbyniol defnyddio Bil Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â pholisi Llywodraeth Cymru?**

Fel yr amlinellwyd mewn ymateb i Gwestiwn 1, nodir y meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid defnyddio Bil gan Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â pholisi Llywodraeth Cymru yn Atodiad B.

4. **A oes modd i chi gadarnhau faint o Filiau'r DU a fydd yn destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol agos, sy'n ychwanegol at y Biliau'r DU hynny y mae memoranda eisoes wedi'u gosod ar eu cyfer gerbron y Senedd?**

Gwneir penderfyniadau ynghylch a fydd Biliau Seneddol y DU yn destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar sail unigol ar ôl i ni gael copïau o'r ddeddfwriaeth arfaethedig. O ganlyniad, nid yw'n bosibl cadarnhau ar gyfer faint o Filiau, yn ogystal â'r rhai y mae Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi'u gosod ar eu cyfer yn barod, y bydd angen un. Byddwn yn parhau i gydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog ac yn hysbysu'r Senedd wrth i'r Biliau gael eu cyflwyno i Senedd y DU.

5. **Cyfeiriasoch at gyfarfodydd Gweinidogol pedair ochr i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin. A wnewch chi sicrhau bod y Senedd yn cael gwybod am bob cyfarfod o'r fath lle bynnag y bo hynny'n rhesymol bosibl, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol. Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ac mewn datganiad diweddar yn y Cyfarfod Llawn, cadarnhaodd y Prif Weinidog ein hymrwymiad i gryfhau tryloywder ac atebolrwydd o ran cysylltiadau rhynglywodraethol. Byddwn yn parhau i roi’r wybodaeth ddiweddaraf ac adroddiadau i’r Senedd ar ein cysylltiadau, ein gwaith ymgysylltu a’n cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU yn ogystal ag â gweinyddiaethau aelodau o’r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi cytuno â chi, fel Cadeirydd y Pwyllgor, y bydd y Cytundeb yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y chweched Senedd, ac mae ein swyddogion yn gweithio ar hyn.

6. **A allwch gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu unrhyw brosesau mewnol i asesu effaith y Ddeddf ar ddeddfwriaeth a allai ddod o fewn ei chwmpas?**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu proses safonedig er mwyn asesu effaith Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn unig. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses o lunio polisïau, caiff amryw o ystyriaethau eu cadw mewn cof, a gall y Ddeddf honno fod yn un ystyriaeth o'r fath yn dibynnu ar y pwnc dan sylw.

Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn gyfrifol am gynghori Llywodraeth Cymru, y Llywodraethau Datganoledig eraill a Llywodraeth y DU yn annibynnol ar sut mae cyfreithiau, rheolau a rheoliadau penodol yn effeithio ar Farchnad Fewnol y DU a bydd yn adrodd ar sut mae'n gweithio.

7. **A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu hysbysu'r Senedd ynghylch:**

   **i. ei ddeddfwriaeth ei hun a allai ddod o fewn cwmpas Deddf y Farchnad Fewnol; neu**
   **ii. ddeddfwriaeth a wnaed neu a basiwyd mewn deddfwrfa arall a allai, o ganlyniad, ddod â deddfwriaeth Cymru o fewn cwmpas Deddf y Farchnad Fewnol?**

Os bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu deddfwriaeth, bydd y Senedd yn cael gwybod.

Pan fydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil, bydd y Bil hwnnw’n destun proses graffu drylwyr fel rhan o'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau i graffu ar ddeddfwriaeth yr Alban na Gogledd Iwerddon yn y modd hwn. Wedi dweud hynny, os byddwn yn dod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd neu a wnaed mewn deddfwrfa arall a allai ddod â deddfwriaeth Cymru o fewn cwmpas Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, yna byddem yn gallu dwyn hyn i sylw'r Senedd.

8. **A yw Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar y sail nad yw effaith ymarferol deddfau Cymru o fewn cwmpas y Farchnad Fewnol yn cael ei heffeithio a'u tanseilio, fel y dadleuwyd yn ei sail dros gynnal adolygiad barnwrol?**

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad yw’r Ddeddf wedi newid y setliad datganoli. Yn wir, dyna'r hyn yr ydym wedi'i gyflwyno fel rhan o'r Adolygiad Barnwrol sy'n herio Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, sydd bellach ar y cam apelio yn y Llys Apêl. Rydym yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar y sail honno. Edrychwn ymlaen roi prawf ar y materion hyn gerbron y Llys Apêl ar 18 Ionawr.

9. **O fewn ei chymhwysedd, a allwch gadarnhau mai bwriad Llywodraeth Cymru yw parhau i ddatblygu’n gyfochrog â chyfraith yr UE?**

**i. Os mai'r bwriad yw datblygu’n gyfochrog, a allwch gadarnhau:**

**(a) pa brosesau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i fonitro datblygiadau yng nghyfraith yr UE ac ar bas ail, a**

**(b) a fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael pwerau unigryw i barhau i ddatblygu’n gyfochrog â chyfraith yr UE,yn debyg i'r pwerau a ragwelir ganLywodraeth Cymru yn yBil Cyfraith sy'n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru)?**

**Ii. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a fydd yn cydweddu â safonau'r UE ai peidio?**

Efallai y bydd yr Aelodau a wasanaethodd yn y Bumed Senedd yn cofio bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â gofyn i'r Senedd am bwerau i ddatblygu’n gyfochrog â chyfraith yr UE. Roedd hyn am sawl rheswm. Roedd y Gweinidogion yn pryderu na fyddai pwerau mor eang yn dderbyniol i'r Senedd. Roeddent o'r farn bod pwerau ar gael yn barod i ddatblygu’n gyfochrog, er enghraifft, ag addasiadau technegol i ddeddfwriaeth drydyddol yr UE, a nodwyd y byddai'r broses ddeddfwriaethol yn yr UE, ar gyfer deddfwriaeth fwy arwyddocaol yr UE, yn rhoi mwy na digon o amser i alluogi i Fil gael ei gyflwyno a'i basio gan y Senedd pe bai hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol.

Nid oes mecanwaith canolog i fonitro gwahaniaethau rhwng cyfraith yr UE a chyfraith Cymru. Cyfrifoldeb Gweinidogion portffolio unigol a'u hadrannau yw hyn, sy'n ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'u rhaglenni polisi a deddfwriaethol eu hunain.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu drwy'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin, sef y mecanwaith a ffefrir ar gyfer trafod a chytuno rhwng holl wledydd y Deyrnas Unedig ar wahaniaethau polisi yn unol â chymhwysedd datganoledig.

**10. O ran dim atchwelyd, dywedasoch y bu anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cynnal safonau, ac i ba raddau y bydd safonau’n cael eu gwarchod, yn enwedig ym meysydd bwyd, yr amgylchedd ac amaethyddiaeth. A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y trafodaethau hyn a dweud beth yw’r sefyllfa ddiweddaraf?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi lleisio ei phryderon y bydd unrhyw symudiad gan Lywodraeth y DU i ostwng safonau yn ennyn gwrthwynebiad cryf. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i lacio o ran y safonau presennol - mae'n bwriadu cynnal y safonau ac, mewn rhai achosion, ystyried ble y gallai fod yn briodol gwneud gwelliannau yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

**11. Allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am:**

**i. pa brosesau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i asesu a yw deddfwriaeth y mae'n ei gwneud yn peidio ag atchwelyd o'r safonau sydd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio?**

**ii. A oes unrhyw feysydd lle mae gan Lywodraeth Cymru bryderon bod deddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion y DU wedi arwain at atchweliad a pha gamau, os o gwbl, y mae wedi'u cymryd yn yr achosion hyn?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi’n glir mai ein bwriad polisi yw peidio â gostwng unrhyw safonau cyfredol ac mai’r nod yw cynnal y safonau uchel y mae defnyddwyr wedi dod i'w disgwyl.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw sefyllfaoedd ar hyn o bryd lle mae deddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion y DU wedi arwain at atchweliad safonau. Fodd bynnag, rydym yn monitro

symudiadau gan Lywodraeth y DU neu gyrff cysylltiedig i reoleiddio ar gyfer gostwng safonau a byddwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw symudiadau i'r cyfeiriad hwn.

**12. A allwch chi amlinellu eich dealltwriaeth chi o'r berthynas rhwng cymhwysedd deddfwriaethol a'r Cytundeb Ymadael?**

Mae eich llythyr yn cyfeirio at adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (gweithredu gweddill y cytundeb ymadael yn gyffredinol) ac effaith hyn ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o hyn fel "deddfiad gwarchodedig”.

Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os yw'n torri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan roi sylw i unrhyw eithriad yn Rhan 2 o'r Atodlen honno rhag y cyfyngiadau hynny.

Mae paragraff 5 o Atodlen 7B yn datgan na all darpariaeth mewn Deddf gan y Senedd wneud addasiadau, na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i wneud addasiadau, i unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a restrir yn y tabl a nodir ym mharagraff 5(1) o'r Atodlen. Mae hyn yn cynnwys y cyfan o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac eithrio unrhyw ddarpariaeth a eithrir. Nid yw adran 7A o Ddeddf 2018 ar y rhestr o ddarpariaethau a eithrir ym mharagraff 5(1A) o'r Atodlen ac felly mae'n "ddeddfiad gwarchodedig" at ddibenion paragraff 5 o Atodlen 7B.

**13. Gwnaethoch gadarnhau eich dealltwriaeth bod 'dangosfwrdd data' cyfiawnder wedi'i sefydlu. A yw hwn ar ffurf y gellir ei rannu â'r Senedd?**

Byddwn yn darparu fersiynau PDF o'r dangosfwrdd i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi enghraifft o'r datblygiad a'r ystod o ddata sydd ar gael ynddynt. Ond mae'n bwysig nodi bod y Dangosfyrddau Trosedd a Chyfiawnder yn y camau datblygu ac y bydd newidiadau’n cael eu gwneud o bosibl yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr. Byddwn yn gweithio i gyhoeddi'r dangosfyrddau hyn yn ffurfiol ond ar hyn o bryd gwaith sydd ar y gweill ydynt, a’r cynnwys terfynol i’w gadarnhau.

Yng ngoleuni hynny, byddem yn croesawu unrhyw adborth gan y Pwyllgor ar y cynnwys. Mae'r data yn y Dangosfyrddau yn cynnwys ystod eang o ddata sy’n deillio o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr a'r Gwasanaeth Gwarchod Ieuenctid; ond maent yn parhau i fod yn gyfyngedig i'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill, ac rydym yn parhau i fynd ar drywydd yr achos dros sicrhau bod data llawnach a mwy defnyddiol ynghylch cyfiawnder yng Nghymru ar gael ar wahân gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

O fewn Llywodraeth Cymru, mae'r Dangosfyrddau'n rhyngweithiol i ganiatáu eu defnyddio'n llawnach ond ar hyn o bryd, oherwydd ymrwymiadau a wnaed i rai darparwyr data, ni allwn rannu’r dangosfwrdd rhyngweithiol llawn yn allanol.

**14. Cytunwyd ar flaenraglen waith ar gyfer Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. A allwch chi roi’r rhaglen hon i’r Pwyllgor?**

Mae’r gwaith yn parhau i gwblhau'r rhaglen waith, y bydd angen iddi ystyried argymhellion terfynol prosiect Comisiwn y Gyfraith ar y tribiwnlysoedd datganoledig y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi cyn bo hir. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein rhaglen waith ar gyfiawnder unwaith y bydd wedi'i chwblhau.

**Atodiad B: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU**

- Wrth argymell cydsynio i gynnwys darpariaethau datganoledig ym Miliau'r DU, dylid glynu'n glir wrth egwyddorion y Prif Weinidog:

    1. Rydym yn dilyn yr egwyddor y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan Senedd Cymru. Fodd bynnag, mae'n anorfod bod rhai amgylchiadau, a bydd hynny'n parhau, lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol bod darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn cael ei cheisio ar gyfer Cymru ym Miliau Senedd y DU, gyda chydsyniad Senedd Cymru. Yn bur aml bydd darpariaeth o'r fath yn golygu rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru.

    2. Mae cymryd darpariaeth mewn Bil gan y DU yn gallu golygu y gellir sicrhau atebion pragmataidd mewn modd amserol, gan barchu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yr un pryd drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Gall fod yn fater o lywodraethu ymarferol da i ddarpariaethau o'r fath gael eu cynnwys mewn Bil gan y DU.

    3. Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle byddai dull gweithredu o'r fath yn briodol:
        - pan fyddai cynnig deddfwriaethol gan Lywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru ond nad oes amser ar gael i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Senedd;
        - pan fo natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol fyddai bwrw ymlaen â darpariaeth ar gyfer y ddwy yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol;
        - pan fo'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn fach neu'n dechnegol ac yn rhai nad ydynt yn ddadleuol;
        - pan fo Bil y DU yn ymdrin â materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl a bod yn rhaid dilyn llwybr Senedd y DU er mwyn cyflawni'r amcan polisi;
        - lle byddai cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu bwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu hymestyn mewn ffordd na ellid ei chyflawni drwy Ddeddf gan Senedd Cymru, o ystyried y terfynau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

    4. Yn olaf, byddai'n annoeth iawn i Lywodraeth Cymru fabwysiadu trefn hunanwadu (*self-denying ordinance*) mewn amgylchiadau o'r fath.

- Dylai pwerau dirprwyedig, gan gynnwys pwerau Harri VIII, ym Miliau'r DU mewn meysydd datganoledig, gael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn unig.

- Ni ddylai Biliau'r DU greu pwerau cydredol.

- Dylai Biliau Senedd y DU naill ai ddiogelu neu wella'r setliad datganoli presennol, yn hytrach na chyflwyno materion newydd i'w cadw'n ôl.

- Rhaid i Weinidogion y DU gadarnhau'n ysgrifenedig sut y byddant yn talu costau newydd sy'n dod i Lywodraeth Cymru neu awdurdodau datganoledig Cymru.

- Rhaid i Lywodraeth Cymru fod â statws cyfartal i Lywodraeth y DU o ran llywodraethu cyrff trawsffiniol sydd â swyddogaethau datganoledig a sefydlir ym Miliau'r DU.

- Dylid osgoi cytundebau rhynglywodraethol anneddfwriaethol, megis Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ac ymrwymiadau wrth y blwch dogfennau (*despatch box*), sy'n cyd-fynd â Biliau gan mai dim ond i raddau y maent yn rhwymo Llywodraeth bresennol y DU, ac nad ydynt yn rhwymo Llywodraethau'r DU yn y dyfodol.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

8 Hydref 2021

Annwyl Mick

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 20 Medi 2021

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Medi 2021. Roeddem yn ddiolchgar am y cyfle i gael trafodaeth mor eang yn gynnar yng nghyfnod y Chweched Senedd, ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu ymhellach.

Ar ôl y sesiwn, rydym wedi nodi nifer o faterion yr hoffem fynd ar eu trywydd yn fwy manwl gyda chi. Nodir y rhain isod:

1. Gwnaethoch gadarnhau eich bod chi a'ch swyddogion yn gweithio ar strategaeth ar gyfer rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r egwyddorion arweiniol ar gyfer deddfwriaeth a gaiff ei chyflwyno, fel bod gennym ddull gweithredu cyson. A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y strategaeth hon, a chadarnhau pryd mae'n debygol y bydd yn derfynol ac yn cael ei chyhoeddi?

2. Dywedasoch mai strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datrys ei phryderon ynghylch Confensiwn Sewel oedd cynnal cyfarfodydd ar lefel swyddogion ac ar lefel Gweinidogion ac, yn y dyfodol, defnyddio'r mecanwaith datrys anghydfodau sy'n deillio o'r adolygiad o gysylltiadau rhyng-lywodraethol. A yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau i fynd ar drywydd newidiadau mwy sylfaenol i Gonfensiwn Sewel?

3. Mae'n ymddangos bod y meini prawf ar gyfer penderfynu a fyddai'n dderbyniol defnyddio Bil Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â pholisi Llywodraeth Cymru wedi newid. Ym mis Awst 2020, dywedwyd wrth ein Pwyllgor rhagflaenol mai un maen prawf oedd "nad oes amser ar gael i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Senedd". O ystyried ein bod ar ddechrau'r Chweched

Senedd a bod digon o amser i filiau Llywodraeth Cymru gael ei gyflwyno, ymddengys nad yw'r maen prawf hwn yn berthnasol mwyach. A allwch chi ddarparu manylion am y meini prawf rydych chi'n eu defnyddio yn y Senedd hon i benderfynu a fyddai'n dderbyniol defnyddio Bil Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â pholisi Llywodraeth Cymru?

4. Cyfeiriasoch at 'oddeutu 30' o Filiau arfaethedig Llywodraeth y DU yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi, dywedasoch fod disgwyl 32 'eitem o ddeddfwriaeth' y DU. A oes modd i chi gadarnhau faint o Filiau'r DU a fydd yn destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol agos, sy'n ychwanegol at y Biliau'r DU hynny y mae memoranda eisoes wedi'u gosod ar eu cyfer gerbron y Senedd?

5. Cyfeiriasoch at gyfarfodydd Gweinidogol pedair ochr i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin. A wnewch chi sicrhau bod y Senedd yn cael gwybod am bob cyfarfod o'r fath lle bynnag y bo hynny'n rhesymol bosibl, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol?

6. Gwnaethoch gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i *Ddeddf y Farchnad Fewnol 2020* o ran [ein] deddfwriaeth, nad yw'n credu bod y Ddeddf yn cyfyngu'n gyfreithlon ar yr hyn y gall ei wneud, a bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu yn y ffordd y mae wedi gweithredu erioed. A allwch gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu unrhyw brosesau mewnol i asesu effaith y Ddeddf ar ddeddfwriaeth a allai ddod o fewn ei chwmpas?

7. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu hysbysu'r Senedd ynghylch:
   i. ei deddfwriaeth ei hun a allai ddod o fewn cwmpas Deddf y Farchnad Fewnol; neu
   ii. ddeddfwriaeth a wnaed neu a basiwyd mewn deddfwrfa arall a allai, o ganlyniad, ddod â deddfwriaeth Cymru o fewn cwmpas Deddf y Farchnad Fewnol?

8. Dadl sail Llywodraeth Cymru dros gynnal adolygiad barnwrol yw na ddylid dehongli Deddf y Farchnad Fewnol fel un sy'n cyfyngu ar effaith ymarferol deddfwriaeth ddatganoledig. Fel arall, mae'n dadlau, y byddai'r Ddeddf yn cael yr effaith ymhlyg o wneud meysydd datganoledig fel safonau bwyd a safonau amgylcheddol yn "hollol anweithredol" a'i fod yn gyfystyr ag ail-gadw'r meysydd hynny yn ôl. A yw Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar y sail nad yw effaith ymarferol deddfau Cymru o fewn cwmpas y Farchnad Fewnol yn cael eu heffeithio a'u tanseilio, fel y dadleuwyd yn ei sail dros gynnal adolygiad barnwrol?

9. Dywedasoch fod penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid cydweddu â chyfraith yr UE neu wyro oddi wrthi yn cael ei benderfynu yn bennaf gan a oes gan Lywodraeth Cymru

gymhwysedd. O fewn ei chymhwysedd, a allwch gadarnhau mai bwriad Llywodraeth Cymru yw parhau i ddatblygu'n gyfochrog â chyfraith yr UE?

i. Os mai'r bwriad yw datblygu'n gyfochrog, a allwch gadarnhau: (a) pa brosesau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i fonitro datblygiadau yng nghyfraith yr UE ac ar ba sail, a (b) a fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael pwerau unigryw i barhau i ddatblygu'n gyfochrog â chyfraith yr UE, yn debyg i'r pwerau a ragwelir gan Lywodraeth Cymru yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)?

ii. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a fydd yn cydweddu â safonau'r UE ai peidio?

10. O ran dim atchwelyd, dywedasoch y bu anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cynnal safonau, ac i ba raddau y bydd safonau'n cael eu gwarchod, yn enwedig ym meysydd bwyd, yr amgylchedd ac amaethyddiaeth. A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y trafodaethau hyn a dweud beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf?

11. Fe wnaethoch nodi hefyd bod pob adran o Lywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiadau ar gyfer pob darn o ddeddfwriaeth o ran goblygiadau dim atchwelyd - o "beth sy'n digwydd yn ddeddfwriaethol, beth yw'r goblygiadau posibl i Gymru, pa effaith y gallai ei chael o ran cyfrifoldebau datganoledig, ac ati". A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am:

i. ba brosesau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i asesu a yw deddfwriaeth y mae'n ei gwneud yn peidio ag atchwelyd o'r safonau sydd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio?

ii. A oes unrhyw feysydd lle mae gan Lywodraeth Cymru bryderon bod deddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion y DU wedi arwain at atchweliad, a pha gamau, os o gwbl, y mae wedi'u cymryd yn yr achosion hyn?

12. Roedd Adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn arfer dweud bod yn rhaid i Ddeddfau'r Senedd fod yn gydnaws â chyfraith yr UE. Ar ôl ymadael â'r UE, cafodd y terfyn hwnnw ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ei ddileu. Fodd bynnag, nid yw adran 108A wedi ei diwygio i ddweud bod yn rhaid i Ddeddfau'r Senedd bellach fod yn gydnaws â'r Cytundeb Ymadael. Yn lle hynny, mae *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* (gan gynnwys adran 7A o'r Ddeddf honno, sy'n gweithredu'r Cytundeb Ymadael) wedi'i chynnwys fel "deddfiad gwarchodedig". A allwch chi amlinellu eich dealltwriaeth chi o'r berthynas rhwng cymhwysedd deddfwriaethol a'r Cytundeb Ymadael?

13. Gwnaethoch gadarnhau eich dealltwriaeth fod 'dangosfwrdd data' cyfiawnder wedi'i sefydlu. A yw hwn ar ffurf y gellir ei rannu â'r Senedd?

14. Gwnaethoch amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cyfiawnder yn y Chweched Senedd. Cytunwyd ar flaenraglen waith ar gyfer Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. A allwch chi roi'r rhaglen hon i'r Pwyllgor?

Byddem yn ddiolchgar o gael eich atebion i'r pwyntiau uchod cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig, y Gogledd a'r Trefnydd

25 Hydref 2021

Annwyl Trefnydd,

Ar 28 Medi, bu Senedd Cymru'n trafod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU gan benderfynu ei gymeradwyo. Roedd y cynnig yn ystyried cymal 56 ac atodlen 9 i roi pwerau i Weinidogion Cymru godi tâl am eitemau plastig untro.

Yr wyf wedi gofyn, o fewn y broses ddeddfwriaethol bresennol, am gael cyflwyno gwelliant i gymal 56 ac atodlen 9 o Fil yr Amgylchedd mewn perthynas â phwerau i godi tâl am eitemau plastig untro ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cytuno i hynny. Bydd y gwelliant yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol i godi tâl am bob eitem untro, waeth beth fo'u defnydd.

Byddai'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Byddwn fel arfer yn gosod Memorandwm Atodol ond yn anffodus gan fod y Bil bellach wedi cyrraedd y cam gwelliannau ac am fod y Pwyllgorau a Senedd Cymru ar wyliau yr wythnos hon, nid oes digon o amser i gynnal dadl yn Senedd Cymru cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Felly, ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am y newid yn y maes hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Economi a Seilwaith.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

26 Hydref 2021

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Coronafeirws) 2001 i ymestyn rheol a gyflwynwyd yn gynharach eleni sy'n darparu etholwyr mewn isetholiad llywodraeth leol, nad ydynt yn gallu mynychu gorsaf bleidleisio yn bersonol, o ganlyniad i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â coronafeirws, i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy frys heb dystio meddygol. Mae hyn yn golygu bod y bobl hynny sydd eu hangen i hunan-ynysu yn ystod y dyddiau cyn, neu ddiwrnod yr etholiad, yn dal i allu arfer eu hawliau democrataidd tra'n hunan-ynysu.

Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ni fydd y rheol yn gymwys ar, neu ar ôl, 5 Tachwedd 2021, sef y dyddiad olaf y gellir rhoi hysbysiad o isetholiad llywodraeth leol. Fodd bynnag, gall yr isetholiad ei hun cael ei chynnal ar ôl y dyddiad hwn ac nid yw'r rheoliadau presennol yn caniatáu i'r bleidlais ddirprwy nad yw'n cael ei dystio'n feddygol fod ar gael i unrhyw un sy'n hunan-ynysu ar ôl 5 Tachwedd.

O ystyried y nifer cynyddol o achosion Covid-19 ar hyn o bryd, mae wedi dod yn angenrheidiol i ni ymestyn y rheol er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n hunan-ynysu ar, ac ar ôl, 5 Tachwedd 2021 gymryd rhan mewn unrhyw isetholiad llywodraeth leol a drefnwyd.

Mae fy swyddogion wedi cael gwybod yn ddiweddar am dri isetholiad, a drefnwyd ar gyfer 11, 18 a 25 Tachwedd. Er mwyn i'r darpariaethau hyn fod ar waith ar gyfer y cyntaf o'r isetholiadau hynny, gofynnaf ichi ystyried y rheoliadau ar frys ac adrodd arnynt mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Tachwedd 2021.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor ymlaen llaw am eu cymorth wrth sicrhau'r gefnogaeth barhaus hon i bleidleiswyr sydd yn hunan-ynysu ac sydd yn dymuno arfer eu hawliau democrataidd.

Yn gywir,

Annwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad,

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

28 Hydref 2021

Annwyl Huw

**Gwahoddiad i roi tystiolaeth: Codau cyfraith Cymru: rhaglen i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch a chynigion cysylltiedig**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref 2021. Mae'n bleser gennyf dderbyn eich gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am 1:30-2:30 p.m. ddydd Llun 29 Tachwedd, i drafod y rhaglen a'r cynigion ehangach i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

22 Hydref 2021

Annwyl Mick

Gwahoddiad i roi tystiolaeth: Codau cyfraith Cymru: rhaglen i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch a chynigion cysylltiedig

Gwnaethom nodi eich cyhoeddiad ar 21 Medi 2021 ynghylch rhaglen gyntaf Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith fodern Cymru yn fwy hygyrch, a hynny'n unol â gofynion *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*.

Byddwch yn cofio imi ddweud, wrth ymateb i'ch datganiad yn y Cyfarfod Llawn, fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn bwriadu monitro'r broses o weithredu'r rhaglen, a hoffem ddechrau ar y gwaith hwnnw drwy archwilio'r rhaglen yn fwy manwl gyda chi. Byddem hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod eich cynigion ar gyfer gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch mewn cyd-destun ehangach. At y dibenion hynny, hoffem eich gwahodd i'r cyfarfod Pwyllgor a gynhelir ddydd Llun 29 Tachwedd (rhwng 13:30 a 14:30).

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell drwy gyfrwng Zoom.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a fyddwch yn gallu dod i'r cyfarfod, a hynny cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Bil yr Amgylchedd**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu’r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2020. Ar 26 Chwefror 2021, cyflwynwyd cynnig i fwrw'r Bil ymlaen i sesiwn nesaf Senedd y DU, a ddechreuodd ar 11 Mai 2021. Cafodd y Bil ei ailgyflwyno gerbron Senedd y DU ar 26 Mai 2021, pan ddaeth Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a'r Trydydd Darlleniad i ben. Ar 20 Hydref, dechreuodd y cyfnod o anfon y Bil yn ôl ac ymlaen rhwng y ddau Dŷ.

3. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi, i'w weld yma: newbook.book (parliament.uk). Oni nodir yn wahanol, mae'r cyfeiriadau at gymalau yn y memorandwm hwn yn adlewyrchu rhifau’r cymalau yn y fersiwn hon o'r Bil.

**Amcanion Polisi**

4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcanion polisi ar gyfer y Bil hwn yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol a gwneud darpariaeth ar gyfer ffyrdd penodol o wella'r amgylchedd, gan gynnwys mesurau ar wastraff ac effeithlonrwydd adnoddau, ansawdd aer ac adalw amgylcheddol, dŵr, natur a bioamrywiaeth, a chyfamodau cadwraeth.

**Crynodeb o'r Bil**

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ynglŷn â thargedau, cynlluniau a pholisïau i wella'r amgylchedd naturiol; ar gyfer datganiadau ac adroddiadau am ddiogelu'r amgylchedd; ar gyfer Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd; ynglŷn â gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau; ynglŷn ag ansawdd aer; ar gyfer adalw cynhyrchion nad ydynt yn bodloni safonau amgylcheddol; am ddŵr; am natur a bioamrywiaeth; ar gyfer cyfamodau cadwraeth; am reoleiddio cemegion; ac at ddibenion cysylltiedig.

7. Dyma’r cymalau sy'n arbennig o berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Rhan 1 – Llywodraethu Amgylcheddol − Cymal 21 (Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd) a Chymal 47 (Ystyr cyfraith amgylcheddol) i'r graddau y mae'n ymwneud â chymal 21.
- Rhan 3 – Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau – cymalau 51 a 52 (Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr) ac Atodlenni; cymalau 53 – 56 (Effeithlonrwydd adnoddau), cymal 59 (Tracio gwastraff electronig: Prydain Fawr), cymal 61 (Gwastraff peryglus Cymru a Lloegr), cymal 64 (Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990), cymal 65 (Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl), cymal 67 (Pwerau gorfodi), cymal 69 (Gorfodi sbwriel), cymal 70 (Hysbysiadau Cosb Benodedig), cymal 71 (Rheoleiddio gweithgareddau llygru)
- Rhan 4 – Ansawdd aer ac adalw amgylcheddol – cymal 73 (Fframwaith rheoli ansawdd aer lleol), cymal 74 (Ardaloedd rheoli mwg: diwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993)
- Rhan 5 – Dŵr – cymalau 80 ac 81 (cynlluniau a chynigion), cymal 86 (Pŵer awdurdod i ofyn am wybodaeth), cymal 88 (Cyflwyno dogfennau'n electronig), cymal 90 (Ansawdd dŵr: pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol), cymal 91 (Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru), cymal 94 (Ansawdd dŵr: dehongli), cymalau 96 – 98 (Draenio tir)
- Rhan 6 – Natur a Bioamrywiaeth – cymal 119 (Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol)
- Rhan 8 – Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol – Cymal 143 (Diwygio deddfwriaeth ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion (REACH)

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwethaf gael ei gyhoeddi**

8. Ers i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol diwethaf ("Memorandwm 2") ar y Bil gael ei osod ar 3 Medi 2021, pleidleisiodd y Senedd ar 28 Medi i gytuno i roi cydsyniad. Ers y Ddadl ar Gydsyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am welliant at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar hynny. Mae'r gwelliant arfaethedig yn ymwneud â chymal 56 *Taliadau am eitemau plastig untro* ac atodlen 9.

**Gwelliant i Gymal 56 – Taliadau am eitemau plastig untro**

9. Roedd Bil yr Amgylchedd, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n caniatáu i daliadau gael eu codi am eitemau plastig untro. Roedd y ddarpariaeth hon yn berthnasol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cafodd y cymal ei gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Mehefin.

10. Ar 20 Hydref, cynigiodd Llywodraeth y DU welliant i Gymal 56 er mwyn caniatáu i daliadau gael eu codi am unrhyw eitem untro, beth bynnag y bo'r deunydd, yn y man gwerthu yn Lloegr. Y bwriad oedd estyn y pwerau presennol i wneud rheoliadau sydd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan

adran 77 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ac atodlen 6 iddi (codi tâl ar werthwyr nwyddau am gyflenwi bagiau siopa untro).

11. Mae'r tâl am fagiau siopa untro yn enghraifft o sut y gall codi ardoll yn y man gwerthu helpu i ysgogi newid cadarnhaol mewn ymddygiad a chodi ymwybyddiaeth o’r effaith y mae eitemau’n eu cael ar yr amgylchedd. Oherwydd llwyddiant y tâl hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod o blaid cyflwyno pŵer mor eang â phosibl i godi tâl, gan gydnabod y gall dull deddfwriaethol o'r fath helpu i gymell pobl i droi eu cefn ar eitemau untro ac yn lle hynny, gwneud dewisiadau amgen sy’n fwy cynaliadwy a defnyddio eitemau y gellir eu hailddefnyddio. Dyna pam mae ein Strategaeth ar Economi Gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*, yn cynnwys ymrwymiad i ddiddymu eitemau untro diangen. Mae’n cynnwys cam allweddol i ddatblygu opsiynau ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau plastig a chynwysyddion bwyd tafladwy yng Nghymru.

12. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cytuno ar fy nghais i gyflwyno gwelliant, o fewn y broses ddeddfwriaethol bresennol, i gymal 56 o Fil yr Amgylchedd ac Atodlen 9 iddo, mewn perthynas â phwerau i godi tâl am eitemau untro, beth bynnag y bo’r deunydd. Bydd y gwelliant yn sicrhau y bydd gan Weinidogion Cymru yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol i godi tâl am unrhyw eitemau untro.

13. Mae cymal 56 yn rhoi pwerau i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau ar daliadau am eitemau untro. Mae rheoliadau o'r fath yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd pan mai nhw yw'r set gyntaf o reoliadau o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru, pan fo darpariaeth yn y rheoliadau ar gyfer codi tâl am eitem newydd, pan fo darpariaethau yn y rheoliadau sy'n gosod neu'n darparu ar gyfer gosod sancsiynau sifil newydd, neu pan fo'r rheoliadau'n cynyddu uchafswm cosb ariannol neu'n newid ar ba sail y penderfynir ar yr uchafswm hwnnw. Fel arall, byddai rheoliadau o'r fath yn dod o dan y weithdrefn negyddol.

14. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sef ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. Byddai'r cymal yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion Rheol Sefydlog 29.1.

**Goblygiadau Ariannol**

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i'r Senedd o ganlyniad i'r gwelliannau hyn i'r bil.

**Casgliad**

16. Rwyf yn fodlon cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Fil Amgylchedd y DU.

17. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) yn datgan bod Llywodraeth Cymru o’r farn bod y Bil yn gyfrwng priodol i gyflwyno mentrau lle mae angen gweithredu mewn ffyrdd cydgysylltiedig. Mae'r diwygiadau i'r darpariaethau uchod yn estyniad o'r darpariaethau y cytunwyd

arnynt eisoes gan y Senedd ac yn gyfrwng deddfwriaethol a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisi ar ddiddymu eitemau untro yn raddol fel y nodir yn *Mwy nag Ailgylchu*. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau'n parhau i fod yn ddarpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 a bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**28 Hydref 2021**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Chairs of the Climate Change, Environment and Infrastructure
and Legislation, Justice and Constitutional Committees.

28 October 2021

Dear Chairs,

On 21 October the UK Government tabled an amendment to clause 56 and schedule 9 - Charges for single use plastic items, of the UK Environment Bill. The amendment expanded the scope of the charging powers to include all items, regardless of what material they were made from. Due to the lateness of the amendment, the power was to apply only to England, meaning Wales's power would have remained constrained to cover plastic single use items only. We were not given prior notice of the amendment.

This would have curtailed Welsh Minister's ability to act in such an important area relative to England. Whilst I understand the UK Government had originally considered extending this power to other materials during the early drafting stages, a position supported by the Welsh Government, it was not included in the Bill as introduced due to the tight timescale required to develop the Bill and lack of wider evidence. This positon was maintained throughout the Parliamentary scrutiny process and similar amendments were rejected. Indeed, we were informed as recently as August, following an amendment tabled in the House of Lords to extend the charge, this position would remain unchanged.

Despite the inadequate notice for the amendment, we have continued to work collaboratively with the UK Government on the Environment Bill. Once I was aware of this of this change in position, I wrote to the Rt Hon George Eustice MP, Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, seeking an urgent amendment to ensure this important change was extended to Wales. I am pleased to advise the request was agreed.

Reducing the use and availability of unnecessary single-use items and the negative impacts they have on our environment is a top priority for the Welsh Government and Welsh Ministers require powers that allow us to take action on this important matter. A broader charging power will provide a strong disincentive to producing single use products. It also allows us to meet our commitment in Beyond Recycling, our Circular Economy Strategy, to phase out unnecessary single-use items in Wales.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

On 25 October I issued a Written Statement informing Members of the Senedd of the Secretary of State's agreement to table an amendment. I also explained that, due to the lateness of the amendment, there was insufficient time to facilitate a usual Senedd debate.

I can now confirm that in this unusual situation our intention is to bring forward a debate on 2 November. We have laid a supplementary Legislative Consent Memorandum and motion to give effect to that intention, subject to the Business Committee agreeing not to refer the sLCM for scrutiny and the Senedd agreeing to suspend the relevant Standing Orders to allow the legislative consent motion to be debated without due notice. I appreciate that this solution is far from ideal, but I wanted to demonstrate the Welsh Ministers' commitment to the Sewel Convention by providing the Senedd an opportunity to consider, scrutinise and vote on the new provisions.

I am sure you agree this is a positive step towards tackling commonly littered single use items.

Yours sincerely

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change